WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2017 – **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

Blwyddyn yr Archwiliad: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2018

Rhif Cyfeirnod: 265A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol. Os daw cais i law yn gofyn am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn amlinellu'r arfer o ran trafod ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith hwn oedd Fflur Jones, Carol Moseley, Nathan Couch, Michelle Phoenix a Melanie Williams o dan gyfarwyddiaeth Dave Thomas.

# Cynnwys


Adroddiad Cryno

Cyd-destun 4

Canfyddiadau Allweddol 4

Argymhellion 11

Adroddiad Manwl

Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd mantoli'r gyllideb yn 2016-17 ac mae wedi gwella ei threfniadau cynllunio, monitro a chyflawni arbedion, ond mae angen iddi ddibynnu'n llai ar arbedion o ran trafodion a chraffu'n fanylach ar gynlluniau sy'n tanberfformio 14

Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei threfniadau cynllunio a llywodraethu, byddai o fudd iddi gyflymu'r newidiadau mewn rhai meysydd allweddol 25

Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n cryfhau ei gweledigaeth ar gyfer ei hystâd, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynllunio'r gweithlu, ond mae rheoli asedau ac absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i fod yn heriau 39

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion yn asesiad strwythuredig 2017 46

Atodiad 2 – crynodeb o ddarpariaeth cynllun arbedion yr ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17 55

# Adroddiad Cryno

## Cyflwyniad a Chefndir

1 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn helpu i lywio barn yr Archwilydd Cyffredinol am drefniadau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol ac economaidd o'i hadnoddau. Canfu ein gwaith yn 2016 fod **yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran datblygu a gwella'i threfniadau ar gyfer cefnogi rheolaeth ariannol, llywodraethu a sicrwydd a'i bod yn ymwybodol o'r angen i gynnal cyflymder a momentwm er mwyn ymdrin â'r heriau sy'n weddill.**

2 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2017 wedi adolygu agweddau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, ac yn benodol, y cynnydd a wnaed i ymdrin â'r argymhellion a wnaed y flwyddyn flaenorol. Rydym hefyd wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol, gan ein bod yn cydnabod y pwysau ariannol cynyddol y mae llawer o gyrff GIG yn eu hwynebu yn ogystal â'r her o gyflawni dyletswyddau mantoli'r gyllideb a nodwyd yn Neddf Ariannu GIG Cymru (Cymru) 2014.

3 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau, arsylwadau mewn cyfarfodydd Bwrdd, pwyllgorau a grwpiau rheoli, a hefyd ar adolygu dogfennau perthnasol a data perfformiad a chyllid.

## Canfyddiadau Allweddol

4 Mae'r gwaith asesu strwythuredig am eleni wedi dangos bod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu'r trefniadau corfforaethol sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol ac economaidd o'i hadnoddau. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd statudol o fantoli'r gyllideb ar gyfer 2016-17 ac mae wedi gwella ei dulliau o gynllunio, cyflawni a monitro cynlluniau arbed arian. Fodd bynnag, mae angen canolbwyntio mwy ar ddulliau effeithlonrwydd ariannol a chraffu'n fwy croyw ar gynlluniau arbed arian sy'n tanberfformio.

5 Mae'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn gadarn ar y cyfan ac yn parhau i ddatblygu er bod angen gweithredu ymhellach mewn nifer o feysydd gyda'r cwmpas i gyflymu newid a gwelliannau.

6 Mae'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid yn gadarnhaol ac mae gwaith ar y gweill i gryfhau cynllunio'r gweithlu a rheolaeth strategol yr ystâd. Fodd bynnag, mae rheoli asedau ac absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i fod yn heriau a bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ganddi ddigon o gapasiti TGCh i gefnogi'r broses o foderneiddio'r gwasanaeth sy'n digwydd yn barhaus.

7 Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n ategu'r negeseuon allweddol uchod.

## Cynllunio Ariannol a Rheolaeth

8 Wrth adolygu trefniadau cynllunio ariannol a rheolaeth yr Ymddiriedolaeth, canfuwyd bod **yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd mantoli'r gyllideb yn 2016-17 a'i bod wedi gwella ei gwaith chynllunio, monitro a chyflawni arbedion, ond bod angen peidio â dibynnu cymaint ar arbedion o ran trafodion, a bod angen craffu'n fanylach ar gynlluniau sy'n tanberfformio**. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn yr adrannau nesaf.

### Perfformiad ariannol - Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn 2016-17 ac mae wedi gwella'r gwaith o gyflawni arbedion yn ystod y tair blynedd diwethaf, ond mae llwyddiant y cynlluniau unigol yn amrywio'n fawr.

9 Mae gan Ymddiriedolaethau'r GIG ddyletswydd statudol i gydbwyso incwm a gwariant (mantoli'r gyllideb) am gyfnod treigl o dair blynedd, a llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni hyn yn 2014-15 ac eto yn 2016-17. Er bod y rhagolygon yn ystod y flwyddyn yn dangos ychydig o ddiffyg, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni ei dyletswydd mantoli'r gyllideb, ac mewn gwirionedd, i gadw ychydig o warged gwerth £49,000 ar ddiwedd y flwyddyn. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth £4.7 miliwn o arbedion erbyn diwedd 2016-17 o'i gymharu â tharged o £5.2 miliwn.

10 Gosodwyd targed arbedion o £4.9 miliwn ar gyfer 2017-18. Ym mis saith, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni £2.64 miliwn o arbedion yn erbyn targed blynyddol am yr un cyfnod o £2.85 miliwn. Er ei bod yn adrodd diffyg bach o £41,000 ym mis saith, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y byddai'n mantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

11 Ar y cyfan, roedd targedau'r Ymddiriedolaeth o ran arbed arian yn amrywio rhwng 3.1% a 4.1% o'r gwariant a gynlluniwyd dros y tair blynedd diwethaf. Mae gwaith cyflawni arbedion wedi gwella mewn termau gwirioneddol o'r un flwyddyn i'r llall. Er hynny, bu amrywiad sylweddol o ran llwyddiant y cynlluniau arbed arian yn ystod 2016-17 a chyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth 91% o lefel yr arbedion a gynlluniwyd oherwydd nifer fach iawn o gynlluniau a gyflawnodd yn llawer uwch na'r disgwyl. Yn y modd hwn llwyddwyd i wrthbwyso nifer sylweddol o gynlluniau eraill na lwyddasant i gyrraedd yr arbedion a gynlluniwyd.

### Trefniadau cynllunio a chyflawni arbedion ariannol - Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei dull o arbed arian a chynyddu lefel yr arbedion rheolaidd. Ond wrth i'r pwysau ariannol gynyddu, bydd angen rhagor o gynlluniau trawsnewidiol i ddatblygu dull sy'n fwy cynaliadwy yn y tymor hir

12 Yn ystod 2016-17, cynyddodd yr Ymddiriedolaeth gyfraniad ei gwasanaethau cymorth corfforaethol yn y prosesau cynllunio a chyflawni arbedion. Eleni, mae wedi ymgorffori ei phrofiad drwy ddosbarthu cynlluniau arbed arian mawr yn ôl themâu, wedi eu cefnogi gan gynlluniau manwl sy'n nodi meysydd arbed arian penodol.

13 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gyson wrth leihau ei dibyniaeth ar arbedion afreolaidd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cynlluniau arbed arian yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17 a 2017-18 wedi canolbwyntio ar gynlluniau gweithredol a rheoli costau yn bennaf, a byddai o fudd iddi roi pwyslais ar foderneiddio gwasanaethau.

14 Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu ei gwybodaeth yn weithredol drwy adolygu dulliau rheoli arbedion sydd gan sefydliadau eraill a thrwy archwilio cyfleoedd i feincnodi yn fewnol ac yn allanol, er y gallai ddatblygu'r gwaith meincnodi allanol ymhellach.

15 Ar gyfer 2017-18, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dull o gyflawni arbedion, gan benodi Cyfarwyddwyr Gweithredol i arwain pob cynllun unigol. Mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth o ran arbedion yn gryfach yn 2017-18 hyd yn hyn o'i gymharu â 2016-17, sy'n adlewyrchu'r trefniadau gwell ar gyfer nodi a chyflawni arbedion sydd gan yr Ymddiriedolaeth.

Monitro arbedion ariannol - Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei threfniadau o ran atebolrwydd a monitro, ond nid yw'r craffu ar gynlluniau arbed ar wahân yn ddigon trylwyr ar lefel pwyllgor

16 Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Grŵp Cyllid Gweithredol (EFG) yn ystod 2016-17 i adolygu arbedion a chynaliadwyedd drwy'r Ymddiriedolaeth gyfan. Mae'r EFG yn cael gwybodaeth am gynnydd y cynlluniau arbed arian drwy Adroddiadau Amlygu Arbedion yn fisol. Mae'r dull newydd hwn yn cryfhau'r atebolrwydd am gyflawni cynlluniau arbed arian ar lefel weithredol ac yn hwyluso'r prosesau trafod arbedion rhwng sefydliadau.

17 Mae lefel yr wybodaeth ar arbedion yn ddigon i gefnogi'r gwaith craffu ac mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn cael diweddariadau'n rheolaidd ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth ar y cyfan, gan gynnwys ar gyflawni arbedion. Er hynny, ceir ychydig iawn o dystiolaeth graffu a herio gan y Bwrdd, ac er bod y Pwyllgor yn herio'r perfformiadau ar y cyfan yn erbyn y cynllun arbed arian, mae'n darparu craffu cyfyng ar gynlluniau arbed penodol nad ydynt yn cyrraedd eu targedau.

18 Ystyrir y risgiau i berfformiad a/neu ansawdd y gwasanaeth a all fod gan gynlluniau arbed arian yn ystod y cyfnod cynllunio ar gyfer cynlluniau arbed arian. Er hynny, nid oes adroddiadau rheolaidd ar newid yn y risg neu risgiau yn codi yn adroddiadau ar arbedion yr Ymddiriedolaeth.

Y cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol yr asesiad strwythuredig o gynllunio a rheolaeth ariannol - Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol sy'n gysylltiedig â chynlluniau arbed arian a rheolaethau dros reoli asedau, ond mae rhagor i'w wneud

19 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn datblygu cynlluniau cyflawni i gefnogi rhaglenni gwella costau gyda chynlluniau manwl wrth wraidd pob 'thema'.

Mae'r cynlluniau hyn yn cydnabod y modd y mae nifer o gynlluniau unigol yn cyfrannu at thema benodol. Mae llinyn aur amlwg yn cysylltu cynlluniau arbed arian sydd gan y daliad cyllideb â chynllun arbed arian unigol, ac â thema arbed arian gyffredin.

20 Gall yr Ymddiriedolaeth hefyd ddangos cynnydd o ran cryfhau ei rheolaethau dros reoli asedau, er bod angen datrys nifer o broblemau a nodwyd yn 2015-16 o hyd a bod rhai problemau eraill wedi eu nodi yn y gwaith eleni. Adroddwyd ar y rheini ym Memorandwm Cyfrifon Terfynol 2016-17 (fel y'i hamlinellwyd yn Arddangosyn 1) i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ym mis Rhagfyr ar y cyd ag ymateb yr Ymddiriedolaeth o ran rheolaeth. Mae'r ymateb o ran rheolaeth yn nodi manylion y camau a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth i fynd i'r afael â'r materion a godwyd, ynghyd â'r camau sydd ar ôl i'w cymryd i ddatrys yr holl broblemau a nodwyd.

## Llywodraethu a Sicrwydd

21 Wrth adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol a sicrwydd bwrdd yr Ymddiriedolaeth, canfuwyd y canlynol: **Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei threfniadau cynllunio a llywodraethu, byddai o fudd iddi gyflymu'r newid mewn rhai meysydd allweddol.** Drwy ddod i'r casgliad hwn, canfuwyd bod:

### Cynllunio strategol – Mae dull cynllunio strategol yr Ymddiriedolaeth yn parhau i aeddfedu ac mae'n datblygu ei strategaeth hirdymor a'i dull o reoli newid yn strategol

22 Eleni, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth (IMTP) am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dysgu gwersi o fersiwn gyntaf ei IMTP yn 2016-17 ac mae ganddi'r uchelgais i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer 2017-30. Dengys hyn aeddfedrwydd cynyddol o ran ei chynlluniau strategol. Fodd bynnag, er ei bod yn gweithio ar ddatblygu ei dull o reoli newid yn strategol, mae wedi gwneud llai o gynnydd na'r bwriad. Roedd problemau o ran capasiti wedi achosi llithriant yn erbyn rhai o gamau gweithredu yr Ymddiriedolaeth yn ei IMTP yn ystod 2016-17 ac yn Chwarter Un 2017-18.

### Strwythur sefydliadol - mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei strwythur yn ei hadrannau clinigol a gweithredol, ond mae datblygu capasiti ei swyddogaethau corfforaethol yn parhau i fod yn her

23 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth newidiadau i strwythur sefydliadol dwy adran allweddol yn ystod 2016-17 er mwyn cryfhau ei hadran glinigol ac annog gwelliant o ran gweithio'n weithredol yn drawsffiniol. Croesawyd y newidiadau hyn gan Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol. Fodd bynnag ,er bod rhai newidiadau wedi eu cyflwyno i swyddogaethau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, mae capasiti annigonol y swyddogaethau corfforaethol yn parhau i gyfyngu ar y cyflymder y gall

yr Ymddiriedolaeth sbarduno newidiadau strategol arno dan yr IMTP. Dylai'r adolygiad arfaethedig o swyddogaethau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn 2018 fod yn gyfle i nodi anghenion o ran capasiti mewn meysydd corfforaethol penodol a datblygu cynlluniau ar eu cyfer.

### Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgor - Mae cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor yn effeithiol fel arfer ac yn agored, er hynny mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth gyflymu'r broses o gryfhau sawl maes llywodraethu

24 Mae cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor yn parhau i weithio'n effeithiol ar y cyfan a dylai hunanasesiadau a gwaith i feincnodi pwyllgorau, a wnaed yn ddiweddar, arwain at fwy o eglurder am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mapio'r is-grwpiau sy'n gweithio dan ei Phwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch, ac mae'n bwriadu ehangu'r ymarfer hwn i gynnwys meysydd eraill o graffu a sicrwydd, gan fabwysiadu dull seiliedig ar risg, yn dechrau gyda Thechnoleg Gwybodaeth yn 2018.

25 Amlygodd ein hadroddiad o'r asesiad strwythuredig yn 2016 nad oedd modd mynd at rai eitemau allweddol ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn hawdd, yn unol â'r gofynion yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033. Dengys adolygiad pellach sy'n rhan o'r gwaith eleni fod hyn yn broblem o hyd.

26 Mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar nodi a datrys anghenion datblygu aelodau'r Bwrdd, a fydd yn cefnogi parhad yn ystod y cyfnod pontio i benodi Cadeirydd a Phrif Weithredwr newydd yn 2018.

27 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo Polisi Datblygu, Adolygu a Chymeradwyo Polisïau (a elwir hefyd yn 'bolisi'r polisïau'). Er hynny, mae'n cydnabod y bydd angen ychydig o amser i adolygu a diweddaru'r polisïau nad ydynt yn gyfredol sydd ar waith ar hyn o bryd. Yn 2016, tynnwyd sylw hefyd at brydlondeb papurau pwyllgor. Er y gwnaed rhywfaint o welliant o ran prydlondeb ac ansawdd y papurau pwyllgor yn ystod 2016-17, rydym yn dal i weld enghreifftiau o bapurau'n cael eu cyflwyno'n hwyr. Nodwyd rhai cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth wella'r papurau pwyllgor eto, gan roi mwy o bwyslais ar sicrwydd.

28 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2016, gwnaed nifer o arsylwadau mewn cysylltiad â system dracio'r Pwyllgor Archwilio. Yn ystod 2017, mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu perchnogaeth a diben y system dracio a'r gweithgareddau sydd wedi eu cynnwys ar y system. Mae hefyd wedi datblygu trosolwg ar lefel uchel o'r system dracio. Er ein bod yn cydnabod y cynnydd hwn, byddai o fudd i'r Ymddiriedolaeth gael mwy o eglurder o safbwynt rhai gweithgareddau.

29 Rydym hefyd yn nodi'r cynnydd a fu o ran cryfhau rhaglen archwilio clinigol ac effeithiolrwydd yr Ymddiriedolaeth. Yn 2017, cyfunodd yr Ymddiriedolaeth y ddwy swyddogaeth hyn, newidiodd y dull o gyflwyno cynigion archwilio a dynododd bwyllgor i fonitro'r rhaglen archwilio drwy gydol y flwyddyn.

### Rheoli risg a sicrwydd bwrdd – Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i sefydlu ei strategaeth rheoli risg ac i ddatblygu ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a gymeradwywyd yn ddiweddar

30 Yn ddiweddar cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF). Dengys asesiad yn erbyn ein hadolygiad o Fframweithiau Sicrwydd Byrddau ymysg cyrff y GIG yng Nghymru fod BAF yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys ystod o wybodaeth, ond gellid ei gryfhau ymhellach mewn sawl maes. Gwneir gwaith yn barhaus i wella’r BAF yn gyson a sicrhau bod aelodau yn deall dull y BAF yn llwyr ac yn ei groesawu.

31 Mae’r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da o ran ymsefydlu ei Strategaeth Rheoli Risg newydd ac annog cysondeb wrth nodi a rheoli risgiau.

### Llywodraethu gwybodaeth - Mae’r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i gryfhau’r system llywodraethu gwybodaeth a chyflawni cydymffurfiaeth â gofynion y ddeddfwriaeth newydd erbyn Mai 2018 ond mae mwy i’w wneud

32 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Warcheidwad Caldicott yn ogystal ag Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) yn eu lle. Mae cydymffurfiaeth yr Ymddiriedolaeth â Caldicot: Egwyddorion ar Waith (C-PIP) wedi gwella erbyn hyn ac mae wedi cyrraedd sgôr o bum seren. Cyflwynwyd papur yn amlinellu gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i’r tîm Rheolaeth Weithredol ym mis Ebrill 2017 ac i’r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch ym mis Medi 2017. Mae’r Ymddiriedolaeth yn sylweddoli bod angen diweddaru polisïau allweddol i gydymffurfio â gofynion y GDPR gan fod polisïau nad ydynt yn gyfredol yn peri risg o ddirwyon sylweddol i’r Ymddiriedolaeth gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os na chânt eu hadolygu erbyn mis Mai 2018.

### Trefniadau monitro perfformiad - Mae’r trefniadau monitro perfformiad wedi datblygu’n dda ac yn parhau i gryfhau, a chan fod y perfformiad o ran galwadau coch yn dda, mae’r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio’n fwy ar alwadau oren

33 Yn ystod 2017, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth welliannau i’w Hadroddiad Integredig ar Ansawdd a Pherfformiad (IQPR) yn dilyn sylwadau yn ein hasesiad strwythuredig yn 2016. Mae’r Ymddiriedolaeth yn cynllunio gwelliannau pellach i’w rheoli perfformiad yn 2017-18, gan gynnwys caffael dangosfwrdd electronig.

34 Mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth o ran galwadau coch yn parhau i wella ac mae’r Ymddiriedolaeth yn gweithio i reoli’r galw yn unol â’r llwybr pum cam. Er hynny, canfuwyd dirywiad yn y perfformiad o ran galwadau oren, ac mae cleifion yn aros yn hirach bob blwyddyn. Mae’r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar wneud gwelliannau yn y maes hwn.

## Y galluogwyr eraill yn y defnydd effeithlon, effeithiol ac economaidd o adnoddau

35 Wrth adolygu defnydd yr Ymddiriedolaeth o alluogwyr yn y defnydd effeithlon, effeithiol ac economaidd o adnoddau  canfuwyd bod **yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau'r weledigaeth ar gyfer ei hystâd, ei hymgysylltiad â rhanddeiliaid, a chynllunio'r gweithlu, ond mae rheoli asedau ac absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i fod yn her**

## Trefniadau i reoli'r gweithlu yn effeithlon, effeithiol ac economaidd - Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei threfniadau cynllunio'r gweithlu, ac mae wedi bod yn llwyddiannus yn gwella dulliau rheoli'r gweithlu, ond mae lleihau'r absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i fod yn her

36 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei threfniadau o ran cynllunio'r gweithlu. O ganlyniad i swyddogaeth ehangach ei phartneriaid busnes Adnoddau Dynol yn gweithio gydag adrannau, mae ei chynlluniau o ran y gweithlu yn dod yn fwyfwy cadarn. Yn ystod 2016-17, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn paratoi i uwchsgilio ei gweithlu parafeddygon yn dilyn creu'r lefel cyflog band 6 newydd, gydag ariannu ychwanegol y cytunwyd arno drwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC).

37 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu dull penodol gan ei gwneud yn ofynnol i'w pharafeddygon weithio tuag at gymwyseddau uwch a'u harddangos er mwyn cyrraedd y band cyflog newydd, neu i ddewis optio allan o'r cynllun. Ar adeg y gwaith maes, bu'r Ymddiriedolaeth yn datblygu sawl model posibl ar gyfer nifer y staff sy'n dewis optio i mewn neu optio allan o'r cynllun. Mae'r modelau hyn yn rhagfynegi effaith y gwahanol lefelau ar y sefydliad.

38 Yn ystod  2016-17, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn llwyddiannus yn recriwtio parafeddygon. Er hynny, mae'r lefelau absenoldeb oherwydd salwch, na wnaethant ostwng yn unol â thargedau a nodwyd gan yr Ymddiriedolaeth, yn peryglu'r llwyddiant hwn. Mae perfformiad Mantoli Personol ac Adolygiadau Datblygu (MPAD) wedi gwella ledled yr Ymddiriedolaeth eleni, ynghyd â lefelau cydymffurfio â hyfforddiant gwirfoddol. Er hynny, roedd lefelau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn isel ar adeg y gwaith maes.

## Trefniadau ystadau a rheoli asedau - Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ffurfio ei gweledigaeth ar gyfer ei hystâd drwy Raglen Amlinellu Strategol a gymeradwywyd a'i bwriad yw gwella cywirdeb a chysondeb o ran rheoli ei hasedau drwy gaffael System Rheoli Asedau

39 Cymeradwyodd y Bwrdd Raglen Amlinellol Strategol (SOP) ym mis Mawrth 2017, sy'n rhoi manylion am weledigaeth i ddatblygu ystâd yr Ymddiriedolaeth rhwng 2017 a 2027. Cyflwynwyd y SOP i Lywodraeth Cymru ac, os caiff ei chymeradwyo, bydd yn llywio defnydd cyfalaf ar wahân a chynlluniau busnes yr Ymddiriedolaeth yn y deng mlynedd nesaf. Er enghraifft, mae'r SOP yn amlinellu opsiynau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad.

40 Mae’r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno rhai gwelliannau o ran cryfhau rheolaethau rheoli asedau. Fodd bynnag, mae nifer o’r meysydd y nodwyd bod angen gwelliannau iddynt yn 2015-16 yn parhau ac rydym wedi ychwanegu meysydd eraill i’w gwella ym Memorandwm Cyfrifon Ariannol eleni sy’n ymwneud â’i chofrestrau asedau. Mae’r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y meysydd hyn ac mae’n cymryd camau i wella cywirdeb ac ansawdd ei gwybodaeth gan symud ei data i System Rheoli Asedau newydd.

### TGCh a defnyddio technoleg - Mae’r Ymddiriedolaeth yn ceisio moderneiddio a gwella ei systemau technolegol ond nid oes digon o gefnogaeth oherwydd yr adnoddau cyfyngedig

41 Mae swyddogaethau TGCh a gwybodeg yr Ymddiriedolaeth yn rhan o’r bwrdd moderneiddio ac maent yn cymryd rhan weithredol yn y broses honno. Gweithredu system newydd o Anfon Ambiwlansys gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD) oedd yn rhan o agenda foderneiddio'r Ymddiriedolaeth yn 2017-18 ac roedd hyn ar y gweill yn ystod y gwaith maes.

42 Dim ond 27 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn sy’n gweithio ym maes TGCh yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd, a dim ond un Rheolwr Prosiect TGCh sy’n gyfrifol am yr holl brosiectau TGCh. Bydd yr hinsawdd economaidd a’r gofynion parhaus i wneud arbedion yn golygu her fawr i swyddogaeth TGCh yr Ymddiriedolaeth i barhau i gefnogi’r broses foderneiddio.

### Trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio gyda phartneriaid - Mae’r Ymddiriedolaeth yn arddangos ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid ac yn llywio ei strategaeth hirdymor drwy ymgysylltu â’r cyhoedd

43 Yn ddiweddar datblygwyd Fframwaith Ymgysylltu a Chyfathrebu ynghyd â Chynllun Cyflawni ar gyfer 2017-18 gan yr Ymddiriedolaeth ac mae eisoes yn gweithredu arnynt. Bwriad y Fframwaith yw cefnogi’r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei gweledigaeth sefydliadol  drwy weithio gyda phartneriaid. Mae’r Fframwaith hefyd yn nodi cyfleoedd cydweithredu a grëwyd yn ddiweddar gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru, er enghraifft, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dengys yr Ymddiriedolaeth ganlyniadau partneriaethau da wrth weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys byrddau iechyd, yr heddlu a phrifysgolion. Mae’r tîm Profiad Cleifion ac Ymgysylltu â’r Gymuned wedi bod yn ymgysylltu â sawl grŵp penodol o gleifion yn ystod 2016-17 er mwyn llywio strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth.

# Argymhellion

44 Ceir manylion yr argymhellion a wnaed yng ngwaith asesiad strwythuredig 2017 yn Arddangosyn 1. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth hefyd barhau i ganolbwyntio ar weithredu unrhyw argymhellion blaenorol nas cyflawnwyd hyd yn hyn.

45 Caiff ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth, sy'n manylu ar sut y bwriada fynd i'r afael â'r argymhellion hyn, ei gynnwys yn Atodiad 1 a'i ystyried gan y pwyllgor bwrdd perthnasol.

## Arddangosyn 1: argymhellion 2017

Mae'r tabl canlynol yn nodi argymhellion yr asesiad strwythuredig ar gyfer 2017

| Argymhellion 2017 |
| --- |
| **Craffu ar gyflawniadau arbed arian**<br>A1 Er bod y broses graffu ar ddarpariaeth y cynllun arbed arian yn dda ar y cyfan, dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau cyfredol i gynnwys:<br>a. mwy o sylw gan y Grŵp Cyllid Gweithredol ar y rhesymau y tu ôl i dangyflawniad cynlluniau arbed arian penodol;<br>b. gwella presenoldeb Cyfarwyddwyr Gweithredol yn y Grŵp Cyllid Gweithredol; ac<br>c. cryfhau'r broses graffu ar gynlluniau arbed arian sy'n tanberfformio gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. |
| **Nodi risgiau i berfformiad ac ansawdd y cynlluniau arbed arian**<br>A2 Ystyrir y risgiau i berfformiad y gwasanaeth wrth gynllunio arbedion, ond nid adroddir yn ddigonol ar risgiau yn ystod y flwyddyn. Dylai'r Ymddiriedolaeth wneud yn siŵr bod ei Hadroddiadau Cyflawni Arbedion yn nodi unrhyw risgiau y gallai cynlluniau arbed arian eu peri i berfformiad neu ansawdd y gwasanaeth. |
| **Cryfhau rheolaethau rheoli asedau**<br>A3 Mae angen i'r Ymddiriedolaeth roi sylw i'r gwelliannau pellach i reolaethau rheoli asedau a nodwyd yn adroddiad cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol a'r Memorandwm Archwilio Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2016-17. |
| **Cydymffurfio â Chylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033**<br>A4 Canfuwyd nad oedd modd mynd at rai eitemau ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn ddigon hawdd, yn unol â'r gofynion sydd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033 yn 2016, ac rydym wedi gweld yr un sefyllfa yn 2017. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion WHC 033. |
| **Cryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**<br>A5 Dengys asesiad yn erbyn ein hadolygiad o Fframweithiau Sicrwydd Bwrdd sydd ar waith mewn cyrff GIG yng Nghymru fod Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys ystod o wybodaeth, ond nododd hefyd y gellid cryfhau sawl maes. Dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>• ddarparu rhagor o fanylder wrth ddisgrifio'r bygythiad i gyflawni amcanion strategol, ynghyd â'u canlyniadau; |

**Argymhellion 2017**

- nodi a datgan yn glir y rheolaethau penodol a'r sicrwydd ar gyfer y Fframwaith, er enghraifft, rhoi manylion am y math o archwilio clinigol fydd yn darparu sicrwydd yn hytrach na dyfarnu sicrwydd ar 'archwilio clinigol' yn gyffredinol; a
- phennu goruchwyliaeth ar bob risg a nodwyd ar gyfer amcanion corfforaethol a'r rheolaethau cysylltiedig i bwyllgor penodedig graffu arnynt.

**Cryfhau'r system dracio argymhellion archwilio**

A6 Gwella'r system dracio argymhellion archwiliadau ymhellach drwy gofnodi'n gyson ganlyniad camau gweithredu penodol a sut y maent yn cysylltu â'r argymhelliad. Er enghraifft, os yw'r cam gweithredu yn ymwneud ag adolygu un o feysydd neu swyddogaethau penodol y sefydliad, darparu disgrifiad o ganlyniad yr adolygiad hwnnw a sut mae'n ymateb i'r argymhelliad gwreiddiol.

**Lleihau'r absenoldeb oherwydd salwch**

A7 Nid yw cyfraddau salwch yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2016-17 wedi lleihau yn unol â'r targedau a osodwyd. O ystyried yr effaith y mae absenoldeb oherwydd salwch yn ei chael ar gapasiti gweithredol yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd, yn ogystal â'i pherfformiad ariannol, dylai'r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu camau gweithredu sy'n lleihau lefelau salwch.

**Polisïau Llywodraethu Gwybodaeth**

A8 Dylai'r Ymddiriedolaeth wella cyflymder diweddaru ei pholisïau a sicrhau cynnydd prydlon yn erbyn gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Rheoliad erbyn mis Mai 2018.

**Gwella ansawdd a phrydlondeb papurau Bwrdd a Phwyllgor**

A9 Gwella prydlondeb papurau Bwrdd a Phwyllgor, a sicrhau gwelliannau pellach i'w hansawdd :

- cael rhagor o "bwyslais ar sicrwydd", gan dynnu sylw'r aelodau at unrhyw risgiau y dylent eu hystyried, neu'r lefel o sicrwydd bod risgiau yn cael eu lliniaru: mae'r rhestr wirio wrth adrodd yn ddull defnyddiol o gofnodi'r wybodaeth hon, ond nid yw'n cael ei chynnwys na'i chwblhau'n gyson;
- bod yn fwy cyson wrth gofnodi pwyntiau trafod pwysig yn y cofnodion: ar hyn o bryd dim ond camau gweithredu sydd wedi'u cofnodi, a dim argymhellion, ac nid oes cysondeb o ran dangos craffu na thrafodaeth; a
- sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn yn rheolaidd gofnodion Pwyllgor y Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC).

# Cynllunio a Rheoli Ariannol

## Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn 2016-17 ac mae wedi gwella o ran cynllunio, monitro a chyflawni arbedion, ond mae angen iddi fod yn llai dibynnol ar arbedion trafodiadau a chraffu'n fanylach ar gynlluniau sy'n tanberfformio

46 Ynghyd â rhoi sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, ystyriodd ein gwaith asesu strwythuredig yn 2017 y camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i gyflawni cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hirach. Rydym wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Fodd bynnag, ni fu archwiliad manwl o'r cynlluniau arbed arian unigol yn rhan o gwmpas yr adolygiad hwn. Rydym hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i argymhellion asesiadau strwythuredig blaenorol mewn cysylltiad â rheolaeth ariannol. Nodir ein canfyddiadau isod.

### Perfformiad ariannol - Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn 2016-17 a bu gwelliant o ran cyflawni arbedion yn y tair blynedd diwethaf, ond ceir amrywiad sylweddol yn llwyddiant y cynlluniau unigol

#### Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn 2016-17 ac mae'n rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2017-18

47 Mae'n ddyletswydd statudol ar Ymddiriedolaethau'r GIG i gyrraedd cydbwysedd rhwng incwm a gwariant (mantoli'r gyllideb) ar gyfer cyfnod treigl o dair blynedd, a llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni hyn yn 2014-15, 2015-16 ac eto yn 2016-17. Yn 2016-17, roedd cyllideb yr Ymddiriedolaeth yn £165 miliwn ac er y rhagolygon yn ystod y flwyddyn y byddai rhywfaint o ddiffyg, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd i fantoli'r gyllideb, gan lwyddo i gadw gwarged o £49,000 ar ddiwedd y flwyddyn.

48 Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn rhan helaeth o'i hincwm drwy drefniadau comisiynu gyda Phwyllgor y Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC). Ymgorfforir cyllid y gwasanaethau ambiwlans yn y dyraniadau a wnaed i sefydliadau'r GIG gan Lywodraeth Cymru. Cyllideb yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18 yw £169.4 miliwn. Adroddodd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £41,000 yn seithfed mis y flwyddyn, ond mae hyn yn welliant ar y £47,000 a nodwyd ym mis chwech ac mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ragweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.


#### Mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth wrth gyflawni arbedion wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf

49 Mae'n gynyddol anodd i nifer fawr o gyrff fantoli'r gyllideb oherwydd pwysau costau cynyddol, hyd yn oed gyda chodiadau cyllid blynyddol. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru wneud arbedion os ydynt yn bwriadu gwario yn unol â'u dyraniadau refeniw. Rhwng 2012-13 a 2016-17, cyfanswm y targedau a osodwyd gan yr Ymddiriedolaeth mewn cynlluniau arbed yw £38 miliwn, a chyflawnwyd cyfanswm o £23 miliwn o arbedion gwirioneddol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae targedau arbedion yr Ymddiriedolaeth wedi amrywio rhwng 3.1% a 4.1% o'r gwariant a

gynlluniwyd ac mae'r gwahaniaeth rhwng gwariant a gynlluniwyd a gwariant a gyflawnwyd wedi gwella dros y blynyddoedd o 62% yn 2014-15 i 91% yn 2016-17 (Arddangosyn 2).

Arddangosyn 2: crynodeb cyflawni cynllun arbed arian

Dengys y siart tueddiad cyflawni cynlluniau arbed dros y chwe blynedd ariannol diwethaf. Mae'r colofnau glas yn dangos arbedion wedi eu cynllunio ar ddechrau'r flwyddyn (a gynlluniwyd ym mis 1) yn erbyn arbedion y nodwyd eu bod wedi eu cyflawni ar ddiwedd y flwyddyn.




Ffynhonnell: Arbedion a adroddwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn ei ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru

### Er bod arbedion wedi eu cyflawni'n well, bu amrywiad sylweddol o ran llwyddiant y cynlluniau unigol

50 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17, cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar gynllun arbed arian o £5.2 miliwn, a oedd yn 4.1% o'i gwariant a gynlluniwyd sef £152.4 miliwn. Nododd yr Ymddiriedolaeth 25 o gynlluniau arbed arian er mwyn cyrraedd y targed arbedion hwn (23 ohonynt yn gynlluniau arbedion rheolaidd a dau yn gynlluniau arbedion afreolaidd). Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth £4.7 miliwn mewn arbedion erbyn diwedd 2016-17, a oedd yn cynrychioli 91% o'i tharged arbedion.[1]

51 Fodd bynnag, gwelwyd amrywiad sylweddol yn llwyddiant y gwahanol gynlluniau. Tanberfformiodd dau ar bymtheg o gynlluniau arbed arian yr Ymddiriedolaeth yn 2016-17 yn erbyn targedau o gyfanswm o £1.57 miliwn. Roedd yr arbedion a gyrhaeddwyd yn ganlyniad i ddau gynllun a berfformiodd yn sylweddol well na'r disgwyl, a lwyddodd i gyflwyno gwerth £1.1 miliwn o arbedion ychwanegol. Yn Atodiad 2 ceir dadansoddiad a dynnwyd o gynllun arbedion yr Ymddiriedolaeth sy'n rhoi manylion am berfformiad a gynlluniwyd a pherfformiad gwirioneddol yn erbyn y cynlluniau arbed arian unigol, gan nodi tan-gyflawni a gor-gyflawni.

[1] Ar ben yr arbedion hynny, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth elw drwy werthu tir. Disgwyliwyd codi £1 miliwn, ond codwyd £1.4 miliwn yn y diwedd. Ni chafodd yr elw hwn ei gynnwys yn y datganiadau a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth i Lywodraeth Cymru, felly ni chafodd ei gynnwys yn ein dadansoddiad ni ychwaith.

52 Adolygodd yr Ymddiriedolaeth gynlluniau 2016-17 na wnaethant gyrraedd eu targedau arbed arian i benderfynu pa un a fyddai'n eu hadolygu ar gyfer 2017-18 neu'n eu cau. Gall fod angen addasu cynlluniau arbed arian yn ystod y flwyddyn oherwydd amgylchiadau na ellir eu rhagweld, a dilyn llwybrau amgen yn eu lle. Er hynny, mae'r raddfa o dangyflawni a gorgyflawni sylweddol yn dangos y gallai'r Ymddiriedolaeth wella ei chynlluniau arbed arian a'i threfniadau cyflawni ymhellach.

53 Ar gyfer 2017-18, gosodwyd targed arbed arian o £4.9 miliwn. Ar fis saith, roedd yr Ymddiriedolaeth yn adrodd tangyflawniad o £210,000 yn ei chynllun arbed arian, â £2.64 miliwn o arbedion wedi eu gwneud hyd yn hyn yn erbyn targed o £2.85 miliwn ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae'r sefyllfa hon yn adlewyrchu rhyw ostyngiad yn y perfformiad arbed arian o'i chymharu â mis chwech, pan oedd cyflawniad y cynllun arbed arian yn rhyw £204,000 yn llai na'r disgwyl. Er hyn, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi newid ei rhagolygon o fantoli'r gyllideb ariannol ar y cyfan erbyn diwedd y flwyddyn.

## Cynllunio a chyflawni arbedion ariannol - Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dull o arbed ac wedi cynyddu lefel ei harbedion rheolaidd, ond gan fod y pwysau ariannol yn cynyddu, bydd angen datblygu dull mwy cynaliadwy a hirdymor

54 Mae'r dulliau arbed arian traddodiadol ar draws Cymru wedi canolbwyntio ar fesurau rheoli costau, arbedion caffael, atal recriwtio a newid cymysgedd sgiliau'r aelodau staff neu gymysgedd y graddau i enwi ychydig. Pan na fydd y dulliau hyn yn effeithiol bellach, bydd yn rhaid i gyrff iechyd feddwl yn wahanol, gan y bydd y dulliau torri costau yn llwyddo i arbed llai a llai. Mae adran hon o'r adroddiad yn ystyried y trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion. Nid ydym wedi adolygu dyluniad, atebolrwydd, risgiau na pherfformiad y cynlluniau arbed arian unigol.

### Mae'r dull o wneud arbedion wedi gwella ar y cyfan a cheir cefnogaeth gorfforaethol da, ond mae'r cynlluniau arbed arian yn parhau i fod yn fyrdymor ac yn seiliedig ar drafodiadau

55 Yn ystod 2016-17, cafwyd cyfraniad sylweddol gan nifer o wasanaethau corfforaethol i gynllunio, monitro a chefnogi cynlluniau arbed arian. Roddwyd cymorth effeithiol gan yr Adran Gyllid i gynllunio cynlluniau arbed arian drwy gyhoeddi gwybodaeth reoli briodol, darparu hyfforddiant a chymryd rhan yn natblygiad Cynlluniau Cyflawni Lleol (LDPs) a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) drwy weithdai ar y cyd â'r adran Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Roedd y dull hwn o arbed yn mynnu bod deiliaid cyllidebau yn datblygu cynlluniau arbed arian, a'u bod yn atebol am eu cyflawni. Er hynny, ni lwyddodd y dull hwn o'r gwaelod i fyny i nodi na chyflawni arbedion hirdymor.


56 Eleni, mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi ac yn gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd o'i dull blaenorol o gynllunio arbedion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dosbarthu cynlluniau arbed arian mawr yn ôl thema, a gefnogir gan gynlluniau manwl sy'n nodi'r meysydd ar gyfer gwneud arbedion. Mae'r dull hwn yn hwyluso'r prosesau ymgysylltu o fewn y sefydliad ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion. Ceir targedau lleol y mae deiliaid y cyllidebau yn dal i fod yn atebol amdanynt, ond maent yn cyfrannu at themâu'r cynlluniau arbed arian priodol.

57 Ar gyfer 2017-18, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dull o gyflawni arbedion. Caiff pob cynllun arbed arian ei ddyrannu i Gyfarwyddwr Gweithredol ac Uwch Swyddog Cymorth Ariannol dynodedig. Mae'r dull hwn wedi caniatáu pwyslais strategol ar gyflawni arbedion gydag atebolrwydd cryfach a threfniadau monitro. Dengys Arddangosyn 3 berfformiad yr Ymddiriedolaeth o ran cyflawni arbedion

yn 2017-18 o’i gymharu â’i pherfformiad yn 2016-17. Mae’r graff yn dangos safle cryfach ar gyfer 2017-18, sy’n adlewyrchu’r trefniadau gwell ar gyfer nodi a chyflawni arbedion.

Arddangosyn 3: cymharu perfformiad o ran arbedion ar gyfer 2016-17 a 2017-18

Mae'r graff yn dangos perfformiad yr Ymddiriedolaeth o ran cyflawni arbedion yn 2017-18 o'i gymharu â 2016-17.





Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

58 Yn 2017, cyflwynodd y Gyfarwyddiaeth dros Bartneriaeth ac Ymgysylltu'r ymgyrch 'Pum punt y dydd' â'r nod o godi ymwybyddiaeth ymhlith cydweithwyr o sut y gall newidiadau bach gyfrannu at y targed arbed arian. Mae'r dull hwn yn annog ymddygiad mwy cyfrifol tuag at ddefnyddio adnoddau, a hefyd yn ysgogi aelodau'r staff i gynnig syniadau ar sut i wneud yr Ymddiriedolaeth yn fwy effeithlon. Cyflwynodd aelodau'r staff nifer o awgrymiadau yn ystod yr ymgyrch, a chawsant eu halinio â chynlluniau arbed arian penodol gan yr Adran Gyllid. Mae'r Grŵp Cyllid Gweithredol wedi cytuno y cynhelir ymgyrch newydd i gefnogi'r cynllun arbed arian ar gyfer 2018-19.

59 Prif bwyslais cynlluniau arbed arian yr Ymddiriedolaeth yn 2016-17 a 2017-18 oedd y cynlluniau gweithredol a rheoli costau, er enghraifft, lleihau'r defnydd o staff asiantaeth, lleihau costau gweithio oriau ychwanegol a lleihau costau defnyddio darparwyr preifat. Gellir gweld yn Arddangosyn 4 y cynnydd a wnaed o ran lleihau cost gronnus y tri maes hyn dros y cyfnod o dair blynedd o 2015-16 i 2017-18.

Arddangosyn 4: cost gronnus staff asiantaeth, gweithio oriau ychwanegol a defnyddio darparwyr preifat

Mae'r graff yn dangos y gostyngiad yn y gost gronnus ar gyfer staff asiantaeth, gweithio oriau ychwanegol a darparwyr preifat dros y cyfnod o dair blynedd o 2015-16 i 2017-18.




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru


Mae'r Ymddiriedolaeth wedi lleihau ei defnydd o arbedion afreolaidd, wedi dechrau defnyddio meincnodi ac mae'n datblygu dull arbed arian mwy trawsnewidiol ond mae rhagor i'w wneud

60 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi lleihau'n gyson ei dibynadwyedd ar arbedion afreolaidd yn ystod y tair blynedd diwethaf ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal y duedd hon. O'r arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2016-17, roedd cyfanswm o 71% ohonynt yn arbedion rheolaidd. Dengys Arddangosyn 5 yr arbedion cronnus sy'n gysylltiedig ag arbedion rheolaidd ac afreolaidd rhwng 2015-16 a 2017-18. Mae'r graff yn dangos dibynadwyedd gostyngol yr Ymddiriedolaeth ar arbedion afreolaidd sy'n sicrhau mwy o gynaliadwyedd wrth symud ymlaen.

61 Fodd bynnag, yn ystod 2016-17, cymerodd rhai cynlluniau rheolaidd mwy o amser na'r disgwyl i wireddu'r arbedion, a hynny yn bennaf o ganlyniad i amseroedd cyflwyno hirach na'r disgwyl, er enghraifft, cafodd arbedion yn y fflyd cerbydau a oedd yn gysylltiedig â newidiadau i'r cyfnodau gwasanaethu eu cyflwyno fesul dibyn ar draws Cymru. Cyfyngodd hyn ar lefelau'r arbedion a gyflawnwyd yn 2016-17, ond maent yn cael eu cyflawni erbyn hyn. Mae'r enghraifft hon yn amlygu gwersi wrth gynllunio a phroffilio cynlluniau tebyg yn y dyfodol o ran rhagamcaniadau gwireddu arbedion.

Arddangosyn 5: lleihau arbedion afreolaidd 2015-16 i 2017-18

Mae'r graff yn dangos y tueddiad o ran cydbwysedd yr Ymddiriedolaeth rhwng arbedion rheolaidd ac afreolaidd yn ystod y tair blynedd diwethaf.




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

62 Ceir enghreifftiau lle mae moderneiddio'r gwasanaeth wedi arwain at arbedion ac wedi cael effaith gadarnhaol ar arbedion, megis:

- ymgymryd â newidiadau ar draws y system yn unol â Llwybr Gofal Cleifion Ambiwlans pum cam[2]. Mae gan waith mewn meysydd megis datblygu model parafeddyg cymunedol botensial sylweddol i greu effeithlonrwydd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a'r GIG ehangach yng Nghymru.
- moderneiddio'r Gwasanaeth cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai Brys (NEPTS) ar draws Cymru, er mwyn gwneud y gwasanaethau yn fwy effeithlon ac felly diwallu anghenion y cleifion yn well.

63 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu pecyn cymorth meincnodi gwasanaethau ambiwlans brys y GIG yng Nghymru, a arweinir gan y Comisiynydd. Bydd hyn yn cynnwys gwaith ar y cyd â'r tîm Comisiynu i ddatblygu'r pecyn hwn ac ystyried sut y gall yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r comisiynwyr, fanteisio ar yr allbynnau. Nodir y ddau gynllun hyn fel cyflawniadau allweddol yn y Cynllun Cyflawni Cyllid Lleol. Er hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod hwn yn amcan hirdymor.

[2] Llwybr sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion yw'r Llwybr Gofal Cleifion Ambiwlans pum cam, sy'n disgrifio'r broses pum cam sy'n cefnogi gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru, sy'n mynd o gam un: helpwch fi i ddewis, i gam pump: ewch â fi i ysbyty.

64 Mae'r Ymddiriedolaeth yn amlwg yn cydnabod bod buddion o foderneiddio'r gwasanaeth, ar gyfer ei sefyllfa ariannol ond hefyd ar gyfer gofal cleifion. Fodd bynnag, wrth i'r pwysau ariannol gynyddu, mae angen i'r Ymddiriedolaeth roi rhagor o bwyslais ar newid lefel y cydbwysedd yn ei chynlluniau arbed arian o gynlluniau torri costau byrdymor i'r rhai hynny sy'n nodi a chyflawni arbedion mwy cynaliadwy a hirdymor. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod ei bod wedi teimlo'r angen i ganolbwyntio ar arbedion y gallai eu cyflawni'n gyflym. Dylai pwyslais cryfach ar gynlluniau rheolaidd a mwy trawsffurfiol leihau'r pwysau cyllidebol ar yr Ymddiriedolaeth yn y tymor hir.

65 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau cadarnhaol tuag at ddull mwy trawsffurfiol o reoli arbedion. Mae'n datblygu ei gwybodaeth yn weithredol drwy adolygu dulliau eraill o reoli arbedion. Mae'n ymwneud â Phencampwyr Arloesi o academi cyllid GIG Cymru. Mae'n ymwneud hefyd â'r Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlans a'r Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Cenedlaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal meincnodi mewnol sydd wedi cyfrannai at gynllunio arbedion mewn meysydd megis y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch. Defnyddir yr wybodaeth feincnodi hon gan yr Ymddiriedolaeth i nodi targedau penodol ar gyfer gwahanol rannau'r sefydliad, yn seiliedig ar ddadansoddiad o ble y ceir cyfleoedd arbed arian.

66 Mae wedi bod yn anodd i'r Ymddiriedolaeth feincnodi'n allanol, gan fod gwahaniaethau rhwng yr Ymddiriedolaeth a gwasanaethau ambiwlans eraill a ddarperir yn Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn anodd gwneud cymariaethau ystyrlon. Er hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych yn weithredol ar ddata meincnodi, costio ac effeithlonrwydd i nodi cyfleoedd i wella costau. Mae hefyd yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i ddeall model y gwasanaethau ac effeithiau'r adnoddau yn y system ehangach, er bod hynny mewn cyfnod cynnar. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu'r dull hwn ymhellach er mwyn deall yn well rychwant yr aneffeithlonrwydd yn y sefydliad, ail-gydbwyso lefelau'r cynlluniau gweithredol/torri costau i arbed arian, yn ogystal â nodi arbedion a chyfleoedd sy'n fwy trawsffurfiol a chynaliadwy.

## Monitro arbedion ariannol – Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei threfniadau atebolrwydd a monitro, er hynny, nid cheir digon o graffu ar gynlluniau arbed arian gwahanol ar lefel pwyllgorau

### Mae trefniadau atebolrwydd, monitro a chyd-berchnogaeth weithredol o reolaethau cost ac arbed arian wedi eu cryfhau drwy greu'r Grŵp Cyllid Gweithredol

67 Mae Cynlluniau Cyflawni Lleol (LDPs) yr Ymddiriedolaeth ar gyfer pob un o'i hadrannau a meysydd gweithredol yn nodi bod llwyddiant y cynlluniau arbed yn gyflawniad allweddol, fel y mae Cynllun Tymor Canolig Integredig y sefydliad yn ei wneud. Mae'r Grŵp Cyllid yn gweithio'n agos gyda deiliaid cyllidebau unigol ac yn darparu gwybodaeth reoli briodol er mwyn hwyluso monitro effeithiol o'r arbedion a gyflawnir yn erbyn targedau lleol ar lefel weithredol. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd i drafod arbedion a datblygu cynlluniau gweithredu i ddatrys problemau penodol.

68 Mae Grŵp Cyllid Gweithredol yr Ymddiriedolaeth (EFG), a grëwyd yn 2016-17, yn derbyn gwybodaeth ar gynnydd y cynlluniau arbed arian drwy Adroddiadau Amlygu Arbedion. Cyfarwyddwr yr Adran Gyllid yw Cadeirydd y Grŵp Cyllid Gweithredol. Mae'r dull newydd hwn wedi cryfhau'r atebolrwydd o ran cyflawni cynlluniau arbed arian ar lefel weithredol ac mae'n hwyluso'r deialog ar arbedion ar draws y sefydliad. Mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn aelod o'r Grŵp Cyllid Gweithredol (ac eithrio'r Prif

Weithredwr) sy'n ei gwneud yn bosibl i bob gwasanaeth corfforaethol i gymryd rhan yn y broses o nodi, cynllunio a chyflawni cynlluniau arbed arian.

69 Un o ddibenion craidd yr EFG yw adolygu arbedion a chynaliadwyedd ar draws yr Ymddiriedolaeth, yn benodol o ran:

- monitro'r cynlluniau arbed arian presennol a nodi effeithlonrwydd ychwanegol;
- ystyried rheolaeth o risgiau;
- cynigion ar gyfer buddsoddiadau a blaenoriaethu adnoddau o'r newydd (a ffynonellau cyllido perthnasol).

70 Yn ogystal â monitro rheolaethau costau a chyllidebau cyffredinol, mae aelodau staff yn credu bod yr EFG wedi rhoi mwy o bwyslais ar gynlluniau arbed arian ar draws adrannau, yn enwedig ar gyfer cynlluniau mwy â risg uwch. Mae'r EFG hefyd yn annog y tîm gweithredol i weithio gyda'i gilydd i rannu adnoddau a chymryd perchnogaeth ar y cyd dros arbedion ariannol a rheolaeth. Mae'r pwyslais a roddwyd gan yr EFG a'r ymgysylltiad gan yr adran gyllid ar lefel weithredol wedi cryfhau dull seiliedig ar wybodaeth o nodi a dyrannu arbedion. Er hynny, mae nodiadau anffurfiol gan yr EFG yn datgelu na chraffwyd ar gynlluniau penodol i ddeall pam na wnaethant gyflawni yn erbyn y targed (ac eithrio teithio a chynhaliaeth). Mae nifer y Cyfarwyddwyr Gweithredol sy'n dod i'r cyfarfodydd wedi gostwng ers i'r EFG gael ei greu, ac mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn anfon unigolion eraill i ddirprwyo ar eu cyfer o bryd i'w gilydd. Ceir risg bod presenoldeb afreolaidd y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn tanseilio ei ddiben o gynyddu perchnogaeth y Cyfarwyddwr i gyd o arbedion ariannol a gwariant.

### Ceir digon o graffu ar y perfformiad cyffredinol o ran arbedion ac mae wedi'i gefnogi gan wybodaeth safonol, ond nid oes digon o graffu gan y Bwrdd a'r Pwyllgor ar wahanol gynlluniau sy'n tanberfformio

71 Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar berfformiad ariannol cyffredinol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys ar gyflawni arbedion. Mae'r adroddiad yn cynnwys adran ar arbedion effeithlonrwydd gyda chrynodeb lefel uchel o berfformiad yn erbyn y targed arbedion, ynghyd â chrynodeb o'r cynllun arbed arian. Mae'r adroddiad hwn yn darparu digon o wybodaeth i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol o oruchwylio perfformiad ariannol, ond nid oes ganddo ddigon o fanylion i alluogi'r Bwrdd i herio yn drylwyr. Nododd adolygiad o gofnodion y Bwrdd nad oes digon o drafodaeth ar arbedion ariannol.

72 Mae'r Bwrdd yn trosglwyddo goruchwyliaeth y perfformiad ariannol i'w Bwyllgor Cyllid ac Adnoddau, sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r Pwyllgor yn derbyn Adroddiad Amlygu/Cyflawni Arbedion manylach nag adroddiad y Bwrdd. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth megis dadansoddiadau o'r duedd a throsolwg o sefyllfa arbed arian fesul cynllun. Mae hefyd yn amlygu risgiau, yn nodi'n glir cynlluniau sy'n tanberfformio/perfformio'n well na'r disgwyl ac yn cynnig manylion am gynlluniau sydd mewn perygl o danberfformio gan gynnwys camau lliniaru.

73 Cafodd yr Adroddiad Amlygu/Cyflawni Arbedion ei fireinio yn ystod 2017-18 ac mae'n cynnwys gwybodaeth megis trosolwg o Adroddiad Chwarterol ar Amlygu Arbedion ac Effeithlonrwydd sy'n amlinellu pob cynllun yn ôl teitl/thema, perfformiad ariannol, asesiad o'r ddarpariaeth (sgôr Coch, Oren, Gwyrdd), ynghyd â naratif ar gynnydd, problemau, risgiau a gweithredoedd. Cefnogir hyn gan yr Adroddiadau Amlygu Arbedion unigol a gyflwynwyd gan Arweinwyr Gweithredol, sy'n rhoi manylion ar gyfer cynnydd a chamau gweithredu penodol sydd ar waith i gyflawni arbedion ym mhob cynllun. Dengys yr adroddiadau hyn hefyd fod y sefydliad yn ymgorffori Fframwaith Effeithlonrwydd y GIG wrth gynllunio a chyflawni arbedion.

74 Mae'r dadansoddiad effaith ar ansawdd yn rhan o'r dull cynllunio arbedion sy'n nodi unrhyw risgiau y gallai arbedion ariannol arfaethedig eu peri i berfformiad neu ansawdd y gwasanaeth. Rydym yn nodi bod effaith bosibl arbedion ar ansawdd wedi ei chodi wrth drafod arbedion ariannol arfaethedig yr Ymddiriedolaeth yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ym mis Ebrill 2017. Er hynny, nid oes digon o wybodaeth yn yr Adroddiadau Amlygu/Cyflawni Arbedion am unrhyw risgiau y gallai'r cynlluniau arbed arian eu peri i berfformiad a/neu ansawdd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Gallai fod o gymorth i Gyfarwyddwyr Anweithredol gael goruchwyliaeth dros unrhyw risg a allai ddeillio o arbedion ariannol o fewn y flwyddyn ariannol, os yw hynny'n berthnasol.

75 Mae ansawdd yr wybodaeth ariannol a ddarperir yn cynorthwyo'r broses graffu ac mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn monitro'r perfformiad cyffredinol o ran arbedion. Fodd bynnag, ar lefel y pwyllgor, o ystyried amlder y cyfarfodydd a rhychwant yr agenda, mae'n anodd craffu ar arbedion yn fanwl. Nododd adolygiad o gofnodion y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ei fod yn cynnal adolygiad lefel uchel o arbedion. Fodd bynnag, mae'r broses graffu ar gynlluniau arbed arian sy'n tanberfformio yn gyfyng ac nid yw'r Pwyllgor yn datblygu nac yn monitro camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r risgiau a amlygwyd.

Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol ar gyfer cynllunio ariannol a rheolaeth - Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i weithredu ar argymhellion blaenorol sy'n ymwneud â chynlluniau arbed arian a rheolaethau rheoli asedau, ond mae rhagor i'w wneud

76 Yn 2016, gwnaethom yr argymhelliad canlynol yn ymwneud â rheolaeth ariannol. Ceir disgrifiad o'r cynnydd a wnaed yn Arddangosyn 6.

Arddangosyn 6: cynnydd ar argymhellion 2016 ar gyfer rheolaeth ariannol

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion 2016 sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol.

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|
| A1 2016<br>Sicrhau y cyflawnir cynlluniau arbed arian yn effeithiol, datblygu cynlluniau cyflawni mwy manwl i gefnogi rhaglenni gwella costau. | Wedi'i gyflawni.<br>• Y dull o gynllunio arbedion yn 2017-18 oedd cyfuno'r prif gynlluniau yn ôl thema. Mae cynlluniau manwl ar waith sy'n nodi sut y mae sawl cynllun unigol yn cyfrannu at thema benodol. |
| A2 2016<br>Cryfhau rheolaethau rheoli asedau, mynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd yn adroddiad ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ac yn y Memorandwm Archwilio Cyfrifon Terfynol (FAR). | Ar y trywydd iawn, ond nid yw wedi'i gyflawni hyd yn hyn.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd wrth gryfhau ei rheolaethau rheoli asedau, er bod nifer o broblemau ar ôl a nodwyd hefyd problemau ychwanegol drwy waith cyfrifon eleni. Adroddwyd ar y rhai hynny ym Memorandwm Cyfrifon Terfynol 2016-17 ac mae manylion pellach o dan 'rheoli ystâd ac asedau' nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, ynghyd â chrynodeb ohonynt yn Arddangosyn 1. |

# Llywodraethu a sicrwydd

## Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei threfniadau cynllunio a llywodraethu, ond byddai hefyd o fudd iddi gyflymu'r newid mewn rhai meysydd allweddol

77 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2017 wedi archwilio trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio, effeithiolrwydd y strwythurau llywodraethu, datblygiad ac adolygiad o'i Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF), yn ogystal â'r trefniadau llywodraethu gwybodaeth a rheoli perfformiad. Rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion a'r materion i'w gwella a nodwyd yn 2016. Ceir ein canfyddiadau isod.

## Cynllunio strategol – Mae dull yr Ymddiriedolaeth o gynllunio strategol yn parhau i aeddfedu ac mae wrthi'n datblygu ei strategaeth hirdymor a'i dull o reoli newid strategol

78 Seilir y canfyddiadau sydd wrth wraidd y casgliad hwn ar ein hadolygiad o ddull cynllunio strategol yr Ymddiriedolaeth, ei threfniadau sy'n ei chefnogi i gyflawni rhaglenni newid strategol sy'n sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) a hefyd i fonitro a goruchwylio cynlluniau strategol. Rydym hefyd wedi ystyried y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed y llynedd mewn cysylltiad â monitro ac adrodd ar gyflawniad yr IMTP. Nodir ein canfyddiadau isod.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig wedi ei gymeradwyo ac mae wedi cryfhau ei dull cynllunio a'i goruchwyliaeth weithredol

79 Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yr Ymddiriedolaeth am yr ail flwyddyn yn olynol yn 2017-18. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth ei IMTP 2017-20 IMTP yn unol â Chanllawiau Cynllunio GIG Cymru. Cymeradwywyd yr IMTP o fewn yr amserlen ofynnol ac ni roddwyd amodau cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

80 Mae'r IMTP 2017-20 yn rhoi manylion o'r hyn a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2016-17 i gyrraedd ei hamcanion, ynghyd â'r camau gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dysgu o brofiad blaenorol ac mae wedi gwella ei dull datblygu IMTP, er enghraifft:

- lleihau nifer y camau gweithredu o 154 yng nghynllun 2016-19 i 48 yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2017-20, sy'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i reoli a monitro pob cam gweithredu well;
- cyflwyno model partner cynllunio i gefnogi Penaethiaid Gweithrediadau ac Adrannau Corfforaethol i gynllunio eu Cynlluniau Cyflawni Lleol yn fwy strategol, a ddaeth wedyn yn sail i Gynllun Tymor Canolig Integredig cyffredinol 2017-20;
- gweithio yn ôl egwyddorion Cytundeb y Fframwaith Comisiynu Cydweithredol (CQDF) yn y cyfnod cynnar o ddatblygu Cynlluniau Cyflawni Lleol, a sicrhau bod bwriadau comisiynu a'r IMTP wedi eu halinio ar ôl i'r bwriadau comisiynu ddod ar gael; a
- sicrhau cysondeb wrth ddilyn amcanion strategol drwy ddewis 'adnewyddu' a chryfhau ei IMTP bob blwyddyn i'r gwrthwyneb i ddatblygu Cynllun pendant ar wahân.

81 Roedd adroddiad archwilio mewnol ar gynllunio strategol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017, wedi rhoi sicrwydd rhesymol o ddull yr Ymddiriedolaeth. Nododd yr adroddiad fod gan yr Ymddiriedolaeth ddull cynllunio strategol da o'r gwaelod i fyny drwy ei Chynlluniau Cyflawni Lleol (LDPs) a'i bod yn cyfathrebu â phartneriaid yn dda.

82 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cryfhau ei dull monitro a chraffu ar gyflawni yn erbyn IMTP 2017-18. Y Grŵp Cyllid Gweithredol sy'n gyfrifol erbyn hyn am fonitro agweddau ariannol ar yr IMTP, tra bod y Grŵp Sicrwydd Cyflawni'r IMTP (iDAG) yn goruchwylio pob cam gweithredu o fewn yr IMTP yn fisol, nid y rhai sy'n ymwneud â rhaglenni newid strategol yn unig, fel yr oedd yn digwydd y llynedd. Yn 2016-17, cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth 76% o'i camau gweithredu a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn, a dim ond 3% sydd yn y categori heb eu cwblhau. Cafodd y 17% sy'n weddill eu hailraglennu ar gyfer 2017-18; ac aseswyd nad oedd angen 4% ohonynt mwyach.

83 Yn ystod asesiad strwythuredig 2016, gwnaethom nodi y byddai angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y mae'n cydymffurfio â'r gofyniad am is-bwyllgor i oruchwylio'r IMTP, fel y'i nodwyd yng Nghanllawiau Cynllunio GIG 2016. O ganlyniad i'r heriau o gynnal cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor yn chwarterol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu cadw'r craffu ar yr IMTP ar lefel y Bwrdd, a monitro ymhellach drwy ddulliau eraill, megis briffio Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer aelodau o'r Bwrdd. Mae'r trefniadau presennol yn foddhaol ac mae'r staff o'r farn eu bod yn cyfateb i anghenion cyfredol yr Ymddiriedolaeth. Er hynny, gallai fod angen craffu ffurfiol yn fwy rheolaidd ar y cyflawniad strategol wrth i'r Ymddiriedolaeth weithredu ei strategaeth tymor hirach ac wrth i'w rhaglen newid strategol ddod yn fwyfwy uchelgeisiol.

84 Mae Arddangosyn 7 yn crynhoi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu ar yr argymhellion a wnaethom yn 2016 mewn cysylltiad â monitro a goruchwylio IMTP yr Ymddiriedolaeth.

### Arddangosyn 7: cynnydd ar argymhelliad 2016 o ran cynllunio strategol

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion 2016 o ran cynllunio strategol.

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|
| A3 2016 Cryfhau trefniadau monitro cyflawniad yr IMTP:<br>a. Ystyried cynnydd ar yr IMTP yn ehangach drwy'r Grŵp Cyflawni a Sicrwydd (iDAG), yn ogystal â monitro rhaglenni newid strategol.<br>b. Cadarnhau a fydd craffu ar yr IMTP yn parhau i fod yn un o swyddogaethau'r Bwrdd, neu a gaiff ei gefnogi drwy drefniadau pwyllgor. | Wedi'i gwblhau.<br>a. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dull o fonitro camau gweithredu o fewn yr IMTP ar gyfer 2017-18. Mae'r Grŵp Cyflawni Sicrwydd (IDAG) yn dilyn bob un o'r 48 o gamau gweithredu a nodwyd yn yr IMTP, ynghyd â'r nodau perfformiad, yn fisol, ac mae'n darparu adroddiad chwarterol i'r Tîm a'r Bwrdd Gweithredol.<br>b. Cadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth y bydd gwaith craffu ar yr IMTP yn aros dan adain y Bwrdd, a'i ystyried yn bob chwarter. |

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu ei strategaeth hirdymor a'i dull rheoli newid strategol

85 Yn ogystal â'i Chynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n datblygu strategaeth ar gyfer 2017-30. Mae'r Datganiad o Fwriad Strategol hwn yn rhoi manylion ar sut y gall yr Ymddiriedolaeth gyrraedd ei gweledigaeth hirdymor o fod yn wasanaeth clinigol gwirioneddol: gan wneud y defnydd gorau o dechnoleg, gwaith ymchwil a phartneriaethau i ddarparu gwasanaethau i gleifion.

86 Sefydlwyd grŵp llywio, sy'n cynnwys y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol a'r grŵp sy'n gyfrifol am ddatblygu strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth. Mae'r strategaeth hon cael ei llunio drwy ymgysylltu ag aelodau'r staff, partneriaid a'r cyhoedd, ac mae'r grŵp wrthi'n dadansoddi yr wybodaeth a gafwyd gan eu gweithgareddau ymgysylltu. Y bwriad yw cyhoeddi'r strategaeth hirdymor

ym mis Mawrth 2018, a fydd yn darparu cyfeiriad ar gyfer adnewyddu Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth bob blwyddyn.

87 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi sut y mae'n rhaid i 44 o gyrff penodedig yng Nghymru weithio, a gweithio ar y cyd, i wella llesiant Cymru. Ei nod yw gwella eu prosesau penderfynu drwy sicrhau eu bod yn cynnal gwaith 'datblygu cynaliadwy', gan gynnwys gosod amcanion llesiant a gweithio i'w cyrraedd. Er nad yw'r Ymddiriedolaeth yn un o'r cyrff cyhoeddus penodedig yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae wedi mynegi bwriad o fabwysiadu egwyddorion y Ddeddf a sicrhau cynifer o gyfleoedd ag sy'n bosibl i gyfrannu tuag at osod a chyrraedd amcanion llesiant.

88 Er bod yr Ymddiriedolaeth yn datgan uchelgais cadarnhaol i ddatblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer ei gwasanaeth ac yn ymrwymo i fabwysiadu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid iddi fod yn ymwybodol o'r capasiti a'r galluedd o ran cynllunio, newid a rheoli rhaglenni sydd eu hangen i gyflawni ei huchelgeisiau'n llwyddiannus.

89 Amlygodd yr Adolygiad Archwilio Mewnol o gynllunio strategol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 81, fod angen adolygu capasiti rhai swyddogaethau corfforaethol, megis cynllunio, gan nodi mai'r brif risg i gyflawni'r IMTP yw tueddiad y pwysau beunyddiol i feddiannu rhaglenni newid strategol. Er nad oes adolygiad o gapasiti cynllunio wedi ei gynnal, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod capasiti yn effeithio weithiau ei gallu i gefnogi newid strategol ar gyflymder digonol.

90 Yn ystod asesiad strwythuredig 2016, gwnaethom sylwadau ar ddull newid strategol yr Ymddiriedolaeth a'r her sy'n gysylltiedig â'r adnoddau sydd ar gael i reoli rhaglenni. Roedd yr adran gynllunio wedi cyflwyno manylion ei bwriad o ddatblygu'r sgiliau rheoli rhaglenni a oedd eisoes yn bodoli yn y sefydliad, wrth ddatblygu capasiti er mwyn sefydlu swyddfa rheoli rhaglenni ffurfiol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod ei bod wedi gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl, ond mae wrthi'n sefydlu Rhwydwaith Gwella ac Arloesi. Mae hefyd yn datblygu fframwaith i gefnogi prosiectau yn well, gyda phecynnau cymorth i aelodau'r staff, a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth i uwch reolwyr a rheolwyr canol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych ar gyfleoedd eraill i wella newid strategol a rheoli rhaglenni, gan gynnwys:

- gweithio gyda phartneriaid allanol: megis gweithio ar y cyd â Byrddau Iechyd Lleol, sefydliadau diwydiant a phrifysgolion;
- defnyddio'r adnoddau mewnol yn y modd gorau posibl: gwneud mwy o ddefnydd o'r sgiliau rheoli rhaglenni sydd gan y tîm ystadau cyfalaf, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgynghori ar hyn o bryd ar gynigion i ymgorffori'r ystadau cyfalaf yn yr adran gynllunio.

### Strwythur sefydliadol – Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau strwythur ei hadrannau cliniogl a gweithredol, ond mae datblygu capasiti y swyddogaethau corfforaethol yn pahau i fod yn her

91 Yn ystod 2017, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailstrwythuro ei hadrannau gweithredol a chlinigol sy'n arwain at nifer o newidiadau yn ei strwythur sefydliadol â'r bwriad o gefnogi gweithio rhanbarthol gwell, mwy o bwyslais clinigol ac atebolrwydd cliriach. Mae'r broses ailstrwythuro yn yr adran gweithrediadau yn golygu symud o saith pennaeth gweithrediadau sy'n adrodd i un Cyfarwyddwr Gweithrediadau i saith rheolwr gweithredol sy'n adrodd i dri rheolwr rhanbarthol er mwyn annog aelodau staff i weithio ar draws ffiniau'r Byrddau Iechyd.

92 Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd wedi pennu arweinwyr clinigol o fewn yr adran glinigol ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru, gyda’r nod o annog gweithio ar y cyd ar draws ffiniau’r Byrddau Iechyd. Bydd y newid hwn yn anelu at ddatblygu capasiti ac arbenigedd i gefnogi’r Ymddiriedolaeth i ganolbwyntio mwy ar yr ochr glinigol, ac i allu defnyddio’r data sydd gan yr Ymddiriedolaeth i wneud newidiadau cadarnhaol.  Nod arall y newid yn y trefniadau yw datblygu rhagor o atebolrwydd a chapasiti o fewn swyddogaethau Arweinwyr y Timau Clinigol. Er nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi llenwi rhai o’r swyddi newydd ar adeg y gwaith maes, cefnogir yn frwd y newidiadau yn strwythur y meysydd gweithredol allweddol hyn gan Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yr Ymddiriedolaeth.

93 Mae swyddi newydd o fewn y swyddogaethau corfforaethol, megis swyddi Cynorthwyo Busnes a Phrosiectau, a hefyd penodi gweinyddwr Datix, wedi ychwanegu at ehangu capasiti’r Ymddiriedolaeth. Er hynny, mae capasiti’r swyddogaethau corfforaethol yn gyffredinol, ac yn arbennig o ran cynllunio, TG a gwybodeg, yn parhau i fod yn her. Amlygwyd hyn gan yr adroddiad Archwilio Mewnol yn ddiweddar, yn ogystal â’r dystiolaeth o lithriant yn erbyn rhai o gamau gweithredu’r IMTP yn ystod 2016-17, a cham gweithredu arall yn Chwarter 1 2017-18. Mae’r her sy’n gysylltiedig â chapasiti’r tîm gwybodeg i gefnogi rhaglenni moderneiddio yn cael ei thrafod ym mharagraff 89.

94 Mae’r Ymddiriedolaeth wedi adrodd ei bod yn bwriadu adolygu ei swyddogaethau swyddfa gefn yn ystod 2018, a dylai’r adolygiad hwn roi cyfle i’r Ymddiriedolaeth nodi a gwneud cynlluniau i fynd i’r afael ag anghenion capasiti rhai swyddogaethau penodol yn y swyddfa gefn.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a’r pwyllgorau – Mae’r cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau yn effeithiol ac yn agored yn gyffredinol, fodd bynnag, mae’n rhaid i’r Ymddiriedolaeth ddal ati i gryfhau sawl maes llywodraethu

95 Caiff y canfyddiadau sydd wrth wraidd y casgliad hwn eu seilio ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd, ei strwythurau llywodraethu a’i rheolaethau mewnol. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

### Mae’r Bwrdd yn gweithredu yn effeithiol ar y cyfan, ac mae mecanwaith datblygu'r bwrdd yn parhau i esblygu, ond mae gwella hygyrchedd rhai dogfennau allweddol ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn gam gweithredu sydd heb ei gyflawni

96 Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i weithredu yn effeithiol ac yn cydymffurfio â’r holl ofynion ffurfiol o ran gweithdrefnau. Diwallwyd gofynion adrodd blynyddol o fewn yr amserlen ofynnol a chaiff cofnodion ac agendâu'r cyfarfodydd bwrdd a’r pwyllgorau eu cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, amlygodd ein hadroddiad asesu strwythuredig yn 2016 nad oedd rhai eitemau (cynllun blynyddol busnes y Bwrdd; cynlluniau ymgysylltu â dinasyddion; a hefyd y polisi cwynion/codi pryderon) yn ddigon amlwg ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn unol â gofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033. Dengys adolygiad pellach sy’n rhan o’r gwaith eleni nad yw hyn wedi’i ddatrys.

97 Nid yw’r Bwrdd wedi cwblhau modiwl hunanasesu llywodraethu ac atebolrwydd ers 2015-16 gan fod yr aelodau yn teimlo nad yw’r modiwl yn arbennig o fuddiol. Yn lle hynny, mae’r Bwrdd wedi bod yn gweithio gydag Academi Cymru yn ystod 2016-17 i ddatblygu model hyfforddi arbennig i’w weithredu yn gynnar yn 2018. Ym mis Medi 2017, cymeradwyodd y Bwrdd ei Raglen Datblygu Bwrdd 12 mis. Mae’r rhaglen yn cynnwys asesiadau a sesiynau i edrych ar elfennau datblygu unigol, y tîm a’r sefydliad ac i nodi anghenion hyfforddiant Aelodau Gweithredol ac Anweithredol y Bwrdd. Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd yn nodi’r anghenion datblygu ar gyfer Aelodau’r Bwrdd drwy adolygiadau o berfformiad a datblygu yn flynyddol (PADRs).

98 Mae’r Ymddiriedolaeth wedi bod â chnewyllyn cymharol sefydlog o Gyfarwyddwyr Anweithredol ers sefydlu aelodaeth gyfredol y Bwrdd yn 2014, a dim ond un o’i Chyfarwyddwyr Anweithredol sydd wedi newid yn 2016-17. Fodd bynnag, mae Cadeirydd presennol yr Ymddiriedolaeth yn gadael ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2016-17. Mae’r Ymddiriedolaeth yn hyderus nad yw’r newid hwn yn peri risg i daith wella yr Ymddiriedolaeth ac mae wedi cymryd camau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar benodi a pharhad yr arweinyddiaeth.

99 Yn ystod asesiad strwythuredig 2016, gwnaethom sylwadau ar fodel matrics yr Ymddiriedolaeth, sy’n cysylltu Cyfarwyddwyr Anweithredol a Chyfarwyddwyr Gweithredol ag unedau gweithredu a byrddau iechyd. Mae nifer o fuddion i’r trefniadau hyn gan gynnwys datblygu a chryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth y Cyfarwyddwyr Anweithredol o ran eu meysydd cysylltiedig ac annog cysylltiadau cadarnhaol rhwng yr Ymddiriedolaeth ac ardaloedd Byrddau Iechyd ar draws Cymru. Gwnaethom nodi er hynny, fod angen i’r Ymddiriedolaeth wneud yn siŵr bod y model yn lliniaru unrhyw risgiau annibyniaeth yn y tymor hir a’i bod yn sicrhau y gellir defnyddio sgiliau arbenigol y Cyfarwyddwyr Anweithredol ar draws unedau gweithredu’r sefydliad. Nid oedd unrhyw awgrym o wrthdaro annibyniaeth yn y gwaith eleni ac roedd y staff ac aelodau y gwnaethom siarad â hwy yn canmol y model. Fodd bynnag, bydd angen i’r Ymddiriedolaeth aros yn effro i risgiau annibynnol tymor hir posibl a’r dewisiadau ar gyfer lliniaru’r risgiau, hyn megis trefniadau rota.

100 Cynhelir cyfarfodydd rhwng y Bwrdd a’i bwyllgorau yn chwarterol. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn credu bod hyn yn gymesur i’r adnoddau sydd ar gael i weinyddu cyfarfodydd, mae amserlen y cyfarfodydd yn peri her o ran sicrhau penderfyniadau amserol a chraffu drwy gydol y flwyddyn. Mae’r Ymddiriedolaeth yn mynd i’r afael â’r her hon drwy ddarparu Sesiynau Datblygu Bwrdd a chyfarfodydd arbennig ar gyfer y Bwrdd a’r pwyllgorau. Mae’r Cyfarwyddwyr Anweithredol hefyd yn derbyn gwybodaeth am weithredoedd, risgiau a pherfformiad yr Ymddiriedolaeth rhwng y cyfarfodydd drwy sesiynau briffio diweddaru’r Cyfarwyddwr Gweithredol.

101 Mae’r Bwrdd yn ymroddedig i dryloywder o ran cynnal busnes y Bwrdd a’r pwyllgorau. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i sylwadau a wnaed yn ein hasesiad strwythuredig yn 2016 er mwyn darparu rhagor o eglurhad o ran eitemau agenda agored a chaeedig. Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd, mae’r Cadeirydd yn darparu crynodeb ar lafar o’r sesiwn gaeedig yn ogystal â rhesymeg o ran pam y trafodwyd eitemau yn breifat. Bydd yn bwysig cadw cydbwysedd rhwng eitemau agenda agored a chaeedig sydd o dan adolygiad, i sicrhau y cedwir tryloywder wrth ddiogelu gwybodaeth sensitif. Yn fwy cyffredinol, gwnaethom weld trafodaeth agored yn ystod cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor, gyda chwestiynau a heriau da.

### Mae pwyllgorau’r Ymddiriedolaeth wedi’u strwythuro’n dd ac yn effeithiol ar y cyfan

102 Yn ystod 2017, adolygodd Archwiliad Mewnol swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau’r Ymddiriedolaeth, yn ogystal â sut y maent yn gweithredu. Daeth yr archwiliad i’r casgliad bod strwythur a dogfennaeth y pwyllgorau yn dda a’u bod yn cael eu gweithredu’n iawn gyda chymorth corfforaethol boddhaus gan dîm llywodraethu’r Ymddiriedolaeth. Gwnaeth yr archwiliad sawl mân argymhelliad mewn cysylltiad â’r Pwyllgor Archwilio gan argymell i bwyllgorau gynnal prosesau hunanasesu a sicrhau nad oes bylchau o ran sicrwydd. Mewn ymateb i’r adroddiad mae dau o dri phrif bwyllgor yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal gweithgareddau hunanasesu yn ystod 2017, ac mae’r Pwyllgor Archwilio yn bwriadu cynnal hunanasesu effeithiolrwydd y pwyllgor. Cynlluniwyd hefyd

ymweliad â Gwasanaeth Ambiwlans De-orllewin gan yr Ymddiriedolaeth yn hwyr yn 2017 i gymharu swyddogaethau a chwmpas y Pwyllgorau Archwilio.

103 Newidiodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn 2017. Mae'r Pwyllgor a'i gyfarfodydd yn parhau i fod yn effeithiol yn gyffredinol, ac mae cynllun gwaith a chofnod gweithredu ar waith a gwnaethpwyd rhai gwelliannau pwysig yn ystod y flwyddyn. Y rhai pwysicaf yw trefniadau newydd i sicrhau presenoldeb gweithredol yn rhan o drefniadau dwyn i gyfrif, yn arbennig pan dderbynnir adroddiadau archwilio sicrwydd cyfyngedig neu pan ymddengys cyflymder y newidiadau yn araf. Gwnaed hefyd gwelliannau perthnasol i argymhelliad yr archwiliad o ran tracio'r gwybodaeth a gafwyd gan y Pwyllgor, sy'n cael ei drafod yn nes ymlaen ym mharagraff 108. Er hynny, gwnaethom sylwi nad yw ein memorandwm cyfrifon terfynol 2016-17, na'r ymateb o ran rheolaeth a oedd yn gysylltiedig ag ef, wedi eu cynnwys yn agenda mis Rhagfyr y Pwyllgor Archwilio fel eitem ar wahân. Er iddynt gael eu hystyried mewn pwyllgor, dylai agendâu ffurfiol adlewyrchu'n gyson yr holl eitemau a dderbyniwyd ar gyfer craffu.

104 Ym mis Hydref 2016, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Grŵp Llywio Ansawdd (QSG) i gefnogi'r Ymddiriedolaeth i wella diogelwch y cleifion a chanlyniadau clinigol; profiad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr; a phrofiad, diogelwch a lles y staff. Mae'r Grŵp yn adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch y Cleifion gan roi sicrwydd i'r Pwyllgor am waith yr is-grwpiau rheoli amrywiol sy'n sail i'r trefniadau ansawdd a diogelwch. Mae'r Grŵp yn adrodd hefyd i Dîm Rheolwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Mae hwn wedi bod yn gam pwysig ymlaen wrth fapio ansawdd a sicrwydd clinigol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn 2018 drwy fapio'r is-grwpiau mewn meysydd o'r sefydliad lle ceir y risg mwyaf, ac mae hyn yn cynnwys Technoleg Gwybodaeth. Bydd y gwaith hwn yn hollbwysig wrth alluogi'r Ymddiriedolaeth i ddefnyddio gwybodaeth a sicrwydd angenrheidiol a pherthnasol i wneud penderfyniadau cytbwys a darparu digon o graffu.

105 Fel y trafodwyd ym mharagraff 75, mae cyfleoedd i gryfhau'r gwaith craffu ar gynlluniau arbed arian sy'n tanberfformio ym Mhwyllgor Cyllid ac Adnoddau yr Ymddiriedolaeth. Er i adolygiad o gofnodion y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau nodi ei fod yn gwneud llawer iawn o waith adolygu, mae cyfleoedd i'r Pwyllgor graffu mwy ar gynlluniau arbed arian sy'n tangyflawni a datblygu a/neu fonitro camau penodol i fynd i'r afael â risgiau a amlygir.

### Mae prydlondeb ac ansawdd papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau wedi gwella ond mae angen pwyslais parhaus er mwyn cryfhau prosesau adrodd ar sicrwydd a sicrhau bod y cofnodion yn dystiolaeth ddigonol o'r trafodaethau

106 Mae rhywfaint o welliant wedi bod o ran prydlondeb ac ansawdd papurau pwyllgorau yn ystod 2016-17, ond rydym yn parhau i weld enghreifftiau o bapurau hwyr. Mae angen i'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol barhau i berchnogi'r gwaith o gyflwyno papurau er mwyn sicrhau nad yw papurau hwyr yn tarfu ar agendâu a rhaglenni gwaith pwyllgorau a bod aelodau'r pwyllgorau hynny yn cael digon o amser i adolygu'r holl wybodaeth cyn y cyfarfodydd. O ystyried bod pwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn chwarterol, mae'n bwysicach fyth bod y papurau'n brydlon a'u bod o ansawdd uchel ac yn canolbwyntio ar sicrwydd. Rydym yn ymwybodol bod yr Ymddiriedolaeth yn cynnal pwyslais ar ansawdd papurau ond gwelsom rai cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth wella'r papurau eto, gan gynnwys:

- sicrhau bod y papurau yn canolbwyntio mwy ar sicrwydd, gan dynnu sylw aelodau at unrhyw risgiau penodol y dylent eu hystyried, neu lefel o sicrwydd bod risgiau yn cael eu lliniaru: mae'r rhestr wirio adrodd yn ddull defnyddiol o gasglu'r wybodaeth hon, ond nid yw'n cael ei chynnwys neu ei llenwi'n gyson;

- bod yn fwy cyson wrth nodi pwyntiau pwysig y drafodaeth yn y cofnodion: ar hyn o bryd dim ond y camau gweithredu y mae rhai o'r cofnodion yn eu nodi, nid argymhellion ac nid ydynt yn dangos tystiolaeth o graffu na thrafodaeth yn gyson;
- sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) yn rheolaidd.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd diweddar o ran adolygu a gwella ei system tracio argymhellion archwiliadau ac mae gwaith i gryfhau'r trefniadau ymhellach yn parhau

107 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau rheoli mewnol. Yn ogystal ag adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion ein hasesiad strwythuredig yn 2016, gwnaethom hefyd ystyried effeithlonrwydd trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli ac ymateb i argymhellion ein harchwiliad. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

108 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried adroddiad tracio sy'n adlewyrchu statws argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol ym mhob un o'i gyfarfodydd chwarterol. Yn ystod asesiad strwythuredig 2016, gwnaethom nifer o arsylwadau ynghylch system tracio argymhellion y Pwyllgor Archwilio, er enghraifft y ffaith bod nifer o gamau gweithredu wedi bod yn rhan o'r system tracio ers cryn amser, yn ogystal ag absenoldeb trosolwg lefel uchel i gyd-fynd â'r system tracio ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn yn ystod 2017.

109 Mae grŵp o Gyfarwyddwyr Anweithredol a Gweithredol wedi adolygu diben a pherchnogaeth y system tracio fel offeryn rheoli, yn ogystal â'r camau sydd wedi eu cynnwys yn y system tracio. Yn sgil hyn, mae nifer o gamau gweithredu nad oedd yn berthnasol erbyn hyn neu a oedd wedi eu cwblhau ond heb eu cau wedi eu tynnu oddi arni. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu adroddiad trosolwg lefel uchel ar hyn o bryd o'r system tracio manwl ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, i amlygu nifer yr argymhellion sydd wedi eu cwblhau, a rhai sy'n parhau neu sy'n hwyr. Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen a dylai gefnogi gwaith y pwyllgor Archwilio o oruchwylio a chraffu ar y cynnydd, cyflymder y newid a'r camau nad ydynt mewn sefyllfa dda i gael eu cyflawni ar amser.

110 Er ein bod yn nodi'r gwelliannau hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod mwy i'w wneud ac rydym yn nodi cyfleoedd eraill i wella'r system tracio argymhellion. Nid yw system tracio manwl y rheolwyr bob amser yn cofnodi canlyniadau camau penodol a sut y maent yn berthnasol i argymhelliad, er enghraifft, pan fod y cam gweithredu yn ymateb i argymhelliad archwiliad sydd â'r nod o adolygu maes neu weithrediad penodol y sefydliad. Byddai rhoi disgrifiad o ganlyniad yr adolygiad hwnnw i aelodau'r Pwyllgor a sut y mae'n mynd i'r afael â'r argymhellion cychwynnol cyn cau'r cam gweithredu yn fwy tryloyw a byddai'n rhoi mwy o sicrwydd.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau agweddau pwysig ar reolyddion mewnol fel archwilio clinigol a gwasanaethau gwrth-dwyll ond mae'n rhaid cynnal y cyflymder wrth ddiweddaru ei reolau sefydlog a'i bolisïau

111 Mae Archwilio Mewnol yn gydran allweddol o reolyddion mewnol yr Ymddiriedolaeth, ac mae'r rhaglen waith, a adroddir drwy'r Pwyllgor Archwilio, yn parhau i fod wedi ei strwythuro'n dda ac yn gynhwysfawr. Mae'r trefniadau gwrth-dwyll wedi eu cryfhau ac mae swyddog gwrth-dwyll newydd wedi'i benodi gan gynyddu'r capasiti i ymchwilio'n fwy rhagweithiol i'r risg o dwyll a'i lleihau.

112 Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd wedi gwneud newidiadau i’r rhaglen archwilio clinigol ac effeithiolrwydd, gan ddod â’r ddwy swyddogaeth at ei gilydd am y tro cyntaf. Yn 2016, gwelwyd llithriant sylweddol yn y rhaglen archwilio clinigol ac ni chynhaliwyd nifer o archwiliadau clinigol yn sgil salwch hirdymor staff. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi adolygu’r rhaglen archwilio clinigol yn ddiweddar ac wedi cryfhau’r trefniadau ar gyfer cynnig eitemau ar gyfer archwiliad clinigol. Mae’r broses ar gyfer dewis eitemau i’w harchwilio yn seiliedig ar risg erbyn hyn. Mae Tîm Rheolwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth yn adolygu cynigion ac mae Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch y Cleifion yr Ymddiriedolaeth yn monitro cynnydd yr archwiliadau trwy gydol y flwyddyn.

113 Yn ystod mis Rhagfyr 2016, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gydnabod ei bod wedi torri ei Rheolau Sefydlog yn anfwriadol, a dechreuodd weithio tuag at eu hadolygu. Cwblhawyd mân newidiadau i’r cynllun cadw a dirprwyo pwerau (rheolau sefydlog) ym mis Ionawr 2017 a sefydlodd yr Ymddiriedolaeth grŵp gorchwyl a gorffen bach i gynnal adolygiad mwy trylwyr, a oedd i fod i adrodd ym mis Gorffennaf 2017. Mae’r adolygiad wedi cynnwys asesiad o’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ac roedd yn cynnwys newidiadau i Gylch Gorchwyl dau o brif bwyllgorau’r Ymddiriedolaeth ar ôl hunanasesiadau a gynhaliwyd yn ystod 2017. Fodd bynnag, mae’r Ymddiriedolaeth wedi profi rhywfaint o lithriant o ran cytuno ar newidiadau i’w rheolau sefydlog ac roedd y gwaith yn parhau ar adeg ein gwaith maes.

114 Mae’r Ymddiriedolaeth wedi bod yn llwyddiannus yn ystod 2016-17 wrth ddatblygu polisi i Ddatblygu, Adolygu a Chymeradwyo Polisïau i egluro’i threfniadau ar gyfer adolygu, diweddaru a chymeradwyo’r polisïau sydd ar waith yn ei holl adrannau. Cymeradwyodd y Bwrdd y polisi ym mis Gorffennaf 2017. Mae’r polisi yn diffinio’r saith cam ar gyfer datblygu neu adolygu polisi ac mae’r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu cofrestr polisi canolog ar gyfer cadw polisïau. Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn canmol y polisi ond roeddynt yn ymwybodol bod y gwaith i adolygu, diweddaru a chadw’r holl bolisïau y mae angen eu diweddaru ar hyn o bryd yn sylweddol a gallai gymryd sawl mis. Ar hyn o bryd, mae’r Ymddiriedolaeth yn gweithio i fapio pa bwyllgorau ddylai fod yn gyfrifol am adolygu pob polisi, a bydd cynnal cyflymder wrth fwrw ymlaen â’r gwaith hwn yn allweddol.

115 Eleni, roedd ein gwaith archwilio yn cynnwys adolygu rheolyddion a gweithdrefnau’r Ymddiriedolaeth i gael sicrwydd bod datgeliadau partïon perthnasol gan y Cyfarwyddwyr Anweithredol a’r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyflawn ac yn gywir. Gwnaethom nodi nifer o feysydd i’w gwella, er enghraifft, nodi y dylai polisi yr Ymddiriedolaeth ddarparu mwy o eglurder o ran y math o berthynas y dylai Cyfarwyddwyr Anweithredol a Gweithredol ei datgelu. Gwnaethom adrodd yr wybodaeth hon yn y Memorandwm Cyfrifon Terfynol.

### Mae gwelliannau wedi’u gwneud sy’n cryfhau’r trefniadau llywodraethu ond mae angen i’r Ymddiriedolaeth gynnal y cyflymder er mwyn cwblhau rhai camau gweithredu pwysig sy’n weddill

116 Yn 2016, gwnaethom yr argymhellion canlynol yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd y Bwrdd, strwythurau llywodraethu a rheolyddion mewnol. Mae Arddangosyn 8 yn disgrifio’r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 8: cynnydd ar argymhellion 2016 ynglŷn ag effeithiolrwydd y Bwrdd, strwythurau llywodraethu a rheolyddion mewnol

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion 2016 ynglŷn ag effeithiolrwydd y Bwrdd, strwythurau llywodraethu a rheolyddion mewnol.

| Argymhellion 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| 2016 A4: Gwella trefniadau llywodraethu a rheolyddion mewnol y Bwrdd a'r pwyllgorau ymhellach:<br>a. Sicrhau bod papurau pwyllgorau'n cael eu derbyn yn brydlon yn gyson.<br>b. Diffinio meini prawf ar gyfer yr hyn sy'n eitemau agenda cyfarfodydd agored / caeëdig.<br>c. Datblygu defnydd mwy cyson o hunanasesu fel dull o adolygu effeithiolrwydd pwyllgorau, yn ogystal â'r Bwrdd.<br>ch. Cwblhau'r gwaith o fapio'r is-grwpiau o reolwyr a'r llif o sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch y Cleifion.<br>d. Datblygu'r gwasanaeth gwrth-dwyll er mwyn iddo allu ymchwilio'n gadarn ac yn fwy rhagweithiol i leihau'r risg o dwyll. | a. Mewn sefyllfa dda i gyflawni hyn, ond heb ei gwblhau hyd yn hyn. Er bod rhywfaint o welliant yn amlwg, mae papurau'r pwyllgorau yn parhau i fod yn hwyr o bryd i'w gilydd ac weithiau maent yn cynnwys camgymeriadau / nodiadau drafft.<br>b. Wedi'i gwblhau. Mae'r diffiniad o sesiwn agored a chaeëdig y Bwrdd bellach yn glir. Mae'r Cadeirydd yn rhoi esboniad yn ystod pob cyfarfod o'r hyn a drafodwyd a'r rheswm dros wneud hynny mewn sesiwn gaeëdig.<br>c. Mewn sefyllfa i gyflawni hyn ond nid yw wedi ei gwblhau hyd yn hyn. Mae dau o'r tri phrif bwyllgor wedi cwblhau hunanasesiadau yn 2017, ac mae adolygiad mwy manwl wedi ei gynllunio ar gyfer y Pwyllgor Archwilio.<br>ch. Wedi'i gwblhau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu grŵp llywio ansawdd i roi sicrwydd i'r Pwyllgor am waith yr is-grwpiau rheoli amrywiol sy'n sail i'r trefniadau ansawdd a diogelwch.<br>d. Wedi'i gwblhau. Mae swyddog gwrth-dwyll newydd wedi dechrau yn ei swydd yn ddiweddar ac mae'r gwasanaeth wedi cryfhau yn sgil hyn. |
| 2016 A5: Cryfhau'r prosesau monitro a chraffu ar gynnydd o'i gymharu ag argymhellion archwiliadau:<br>a. Sicrhau bod y system tracio yn cynnwys holl argymhellion yr archwiliadau.<br>b. Ystyried defnyddio gwybodaeth gryno a sicrhau bod ystod ehangach o swyddogion yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i wella'r gwaith o graffu ar gynnydd. | Wedi'i gwblhau.<br>a. Wedi'i gwblhau. Yn ystod 2017, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth adolygu'r camau gweithredu ar argymhellion archwiliadau a thynnu nifer o'r rhai hynny nad oedd bellach yn gyfredol.<br>b. Wedi'i gwblhau. Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno trosolwg lefel uchel o argymhellion i'r system tracio argymhellion. Erbyn hyn, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i reolwyr ddod i'r Pwyllgor pan |

| Argymhellion 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| | gyflwynir adroddiadau o sicrwydd cyfyngedig. |
| 2016 A6: Sicrhau bod yr holl wybodaeth a bennir ar gael i'r cyhoedd, asesu cynnwys a hygyrchedd gwefan yr Ymddiriedolaeth i gadarnhau bod gofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033 yn cael eu bodloni'n llawn. | Heb ei gwblhau.<br>Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng canfyddiadau 2017 â'n hasesiad yn 2016. |
| 2016 A7 Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau clir a chyfredol ar waith gan yr Ymddiriedolaeth:<br>a. Datblygu 'polisi ar bolisïau' yn pennu'r broses y cytunwyd arni ar gyfer adolygu, diweddaru a chymeradwyo polisïau.<br>b. Cwblhau'r gwaith o adolygu, diweddaru a chymeradwyo polisïau allweddol nad ydynt yn gyfredol ar hyn o bryd, gan gynnwys polisïau diogelwch gwybodaeth a threfniadau gweithredu safonol ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. | Mewn sefyllfa dda i gyflawni hyn, ond heb ei gwblhau hyd yn hyn.<br>a. Cymeradwyodd y Bwrdd 'Bolisi ar Bolisïau' ym mis Gorffennaf 2017 a sefydlwyd cronfa ddata i gadw'r holl bolisïau.<br>b. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio drwy'r polisïau nad ydynt yn gyfredol e.e. cymeradwyodd y Bwrdd y polisi Diogelu Data wedi'i ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2016. Fodd bynnag, mae aelodau'r Bwrdd yn cydnabod y bydd adolygu'r holl bolisïau nad ydynt yn gyfredol yn cymryd cryn dipyn o amser. |

## Rheoli risg a sicrwydd i'r Bwrdd – Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymwreiddio ei strategaeth rheoli risg newydd ac yn parhau i ddatblygu ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a gymeradwywyd yn ddiweddar

117 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg a'r cynnydd wrth fynd i'r afael â materion gwella a nodwyd yn flaenorol sy'n gysylltiedig â rheoli risg a sicrwydd y Bwrdd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

118 Roedd datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) cadarn yn argymhelliad allweddol yn ein hasesiad strwythuredig yn 2015. Yn ystod 2016, gwnaethom adrodd bod yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu camau cychwynnol pwysig ar gyfer datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ffurfiol. Ar ôl trafod dewisiadau ar gyfer fformat fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ystod diwrnodau datblygu y Bwrdd yn 2016-17 ac yn ystod cyfarfodydd mis Mawrth a mis Gorffennaf, cymeradwyodd y Bwrdd ei Fframwaith ym mis Medi 2017.

119 Y dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cymeradwyo Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd oedd mis Mawrth 2017 ac felly mae wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd. Fodd bynnag, gwnaeth y Bwrdd benderfyniad pendant yn 2017 i ddatblygu'r BAF yn fwy pwyllog. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r BAF ac i sicrhau bod y BAF yn cyd-fynd ag amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth cymaint â phosibl, ac yn eu cefnogi. Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn bod y BAF sydd wedi'i gymeradwyo yn darparu man cychwyn cadarn ac y bydd angen parhau i'w ddatblygu a'i addasu i anghenion yr Ymddiriedolaeth.

120 Wrth ei asesu o'i gymharu â'n hadolygiad o Fframweithiau Sicrwydd Byrddau sydd ar waith ar draws cyrff GIG yng Nghymru, dangosir bod dogfen BAF yr Ymddiriedolaeth yn cwmpasu amrywiaeth o wybodaeth berthnasol, ond y gallai gael ei gryfhau mewn sawl maes, er enghraifft:

- mwy o fanylion wrth ddisgrifio'r bygythiadau i gyflawni'r amcanion strategol a'u canlyniadau;
- nodi a datgan y rheolyddion a'r sicrwydd penodol ar gyfer y BAF, er enghraifft, manylion pa archwiliad clinigol fydd yn darparu sicrwydd yn hytrach na phennu sicrwydd i 'archwiliad clinigol' yn yr ystyr cyffredinol;
- priodoli trosolwg pob risg a nodwyd i amcanion corfforaethol a'r rheolyddion cysylltiedig i bwyllgor penodedig ar gyfer craffu.

121 Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth ei Strategaeth Rheoli Risg ym mis Mawrth 2016 ac ers hynny mae wedi bod yn gweithio i ymwreiddio'r strategaeth. Gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth yw cynyddu o fod yn sefydliad sy'n 'ymwybodol o risg' yn 2015-16 i fod yn sefydliad sy'n 'gallu ymdrin â risg' yn 2018-19. Mae cyfarfodydd busnes Cyfarwyddiaethau yn monitro a goruchwylio'r gofrestr risg corfforaethol ac mae Tîm Rheolwyr Gweithredol a Phwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth yn adolygu'r gofrestr risg corfforaethol bob chwarter. Yn ystod 2017, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio i wella cysondeb nodi a rheoli risg drwy ddau grŵp newydd:

- mae Grŵp Cynghori'r Gofrestr Risg yn monitro'r broses Asesu Risg i ysgogi cysondeb wrth pennu sgôr i risg a'i monitro. Mae'r Grŵp hefyd yn adolygu'r Cofrestri Risg ar ôl Adolygiadau Perfformiad chwarterol ac mae'n darparu adborth a her, ac yn cefnogi Cyfarwyddwyr Gweithredol i gryfhau'r broses aeddfedrwydd risg.
- Grŵp Datblygu Rheoli Risg i ddatblygu sgiliau a gallu i reoli risg yn effeithiol ar draws y sefydliad, ac mae'r aelodau'n cynnwys arweinydd enwebedig ar gyfer pob cyfarwyddiaeth.

122 Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu defnyddio'r adolygiad chwarterol o'i chofrestr risg corfforaethol i lywio a gwella'r BAF, gan sicrhau dull o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny o reoli risg a nodi dulliau rheoli. Mae'r gofrestr risg corfforaethol yn pennu sgôr i risg o'i chymharu â matrics canlyniad x tebygolrwydd ac yn rhoi sgôr i bob risg allan o uchafswm o 25, ac mae adroddiadau risg i'r Bwrdd / pwyllgorau yn cynnwys y risgiau hynny sydd â sgôr o fwy na 15. Mae'r gofrestr hefyd yn darparu sgôr targed o'i chymharu â phob risg, perfformiad y risg trwy gydol y flwyddyn a sylwadau ar gamau lliniaru.

123 Yn ogystal â chryfhau ei threfniadau i bennu sgôr a monitro risgiau, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i reoli a lleihau ei risgiau allweddol. Ar ddiwedd Chwarter 4, 2016-17 gwnaeth yr Ymddiriedolaeth ddaduwchgyfeirio pum risg a thynnu chwe risg o'i chofrestr risg corfforaethol; ychwanegodd ddau risg newydd hefyd ac uwchgyfeiriodd un risg arall. Ym mis Awst 2017, roedd 23 o risgiau corfforaethol â sgôr o 15 neu fwy ac roedd gan 2 sgôr o 20. Roedd y risgiau â'r sgorau uchaf ar yr adeg honno yn ymwneud ag adnoddau i weithredu Cynllun Gwella Iechyd Meddwl a Rhaglen Cyfathrebu Symudol Gwasanaethau Brys yr Ymddiriedolaeth.

124 Mae sesiynau Datblygu Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2017 wedi cynyddu'r pwyslais ar risg. Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn cydnabod bod risg wedi dod yn gynyddol amlwg mewn sgyrsiau strategol a gweithredol wrth i'r Ymddiriedolaeth barhau i ymwreiddio'r Strategaeth Rheoli Risg.

125 Ym mis Mai 2017, cyhoeddodd y pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys Adolygiad Sicrwydd Risg Clinigol, a arweiniwyd gan Ofynion Craidd Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol: Fframwaith Comisiynu, Ansawdd a Chyflenwi. Roedd yr adroddiad yn nodi nifer o argymhellion mewn meysydd sy'n ymwneud â phob un o chwe gofyniad craidd y Fframwaith. Amlygwyd diffyg trafodaeth ar lefel y

Bwrdd ynghylch aeddfedrwydd risg y sefydliad yn ystod 2016 a'r angen i sicrhau camau lliniaru i gyrraedd sgorau targed risg, pan fo hynny'n bosibl. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i nifer o argymhellion a chaiff y cynnydd ei olrhain drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch y Cleifion.

126 Yn 2016, gwnaethom yr argymhelliad canlynol ynghylch rheoli risg a sicrwydd y Bwrdd. Mae Arddangosyn 9 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

## Arddangosyn 9: cynnydd ar argymhellion rheoli risg 2016

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion 2016 yn ymwneud â rheoli risg.

| Argymhellion 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A9: Ymdrin yn llawn ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol ar gyfer cryfhau sicrwydd y Bwrdd erbyn y dyddiad a fwriadwyd sef 31 Mawrth 2017, cynnal y cyflymder i:<br>a. Weithredu'n llawn y fframwaith rheoli risg a defnyddio'r sgorau risg yn gyson.<br>b. Cwblhau gwaith mapio sicrwydd y Bwrdd a dogfennu a chymeradwyo Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. | Mewn sefyllfa dda i gyflawni hwn, ond heb ei gwblhau hyd yn hyn.<br>a. Mewn sefyllfa dda i gyflawni hyn, ond heb ei gwblhau hyd yn hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu ei strategaeth rheoli risg newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu grwpiau i gryfhau'r gwaith o oruchwylio'r Strategaeth Rheoli Risg (2016-19) a gwella cysondeb sgôr risg a datblygu capasiti ar draws y sefydliad i reoli risg yn effeithiol.<br>b. Wedi'i gwblhau. Cymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mis Medi 2017. Caiff ei reoli gan y grŵp datblygu rheoli risg a'i berchnogi gan y pwyllgor Archwilio. |

## Llywodraethu gwybodaeth – Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i gryfhau llywodraethu gwybodaeth a chydymffurfio â gofynion deddfwriaeth newydd erbyn mis Mai 2018 ond mae mwy i'w wneud

127 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu gwybodaeth. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

128 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Warcheidwad Caldicott ac Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), ac mae cydymffurfiaeth â C-PIP wedi gwella ac mae wedi cyflawni sgôr o bum seren erbyn hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu â rhwydweithiau Llywodraethu Gwybodaeth GIG Cymru i sicrhau bod synergedd anghenion wrth ymateb i ofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredin (GDPR) yn cael ei drafod a'i fonitro. Cyflwynwyd papur yn amlinellu gofynion GDPR i'r Tîm Rheoli Gweithredol ym mis Ebrill 2017 a'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion ym mis Medi 2017. Roedd y papur yn rhoi diweddariad ac yn codi ymwybyddiaeth o GDPR. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynhyrchu hysbysiadau cyfathrebu mewnol ar gyfer y staff i'w hysbysu o'r gofynion newydd.

129 Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i gydymffurfio â rheoliadau GDPR, a mynegwyd hyder y bydd yn bodloni'r gofynion erbyn mis May 2018. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu ffrwd gwaith GDPR ar wahân sy'n cael ei fonitro a'i adrodd drwy drefniadau adolygu chwarterol LDP/IMTP yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, roedd ein hadolygiad o system tracio Gwybodeg Iechyd rhaglen LDP

yr Ymddiriedolaeth ym mis Hydref 2017 yn dangos cam gweithredu yn ymwneud â mwy o ddealltwriaeth o effaith Cyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd a Bil y DU yn ymwneud â GDPR, sy'n awgrymu bod mwy i'w wneud cyn i'r rheoliadau ddod i rym.

130 Yn ystod 2016-17, roedd gan yr Ymddiriedolaeth 16 o ddigwyddiadau Llywodraethu Gwybodaeth, ond nid oedd yr un ohonynt wedi eu categoreiddio yn ddigon difrifol i'w hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Bydd gofynion GDPR yn fwy llym, ac mae'n bosibl y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth adrodd digwyddiadau na ystyriwyd yn ddigon difrifol yn flaenorol o fewn amserlenni tynn y rheoliadau newydd.

131 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r angen i fod â pholisïau cyfredol wrth baratoi ar gyfer gofynion GDPR ac yn ddiweddar dechreuodd adolygu ei fframwaith polisïau Llywodraethu Gwybodaeth. Ar adeg y gwaith maes, roedd nifer o'r polisïau diogelwch gwybodaeth a llywodraethu gwybodaeth yn parhau i fod heb eu diweddaru o hyd ond roedd yr Ymddiriedolaeth wedi diweddaru a chymeradwyo'r Polisi Diogelu Data. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynegi hyder y bydd y rhain yn cael eu hadolygu erbyn mis Mai 2018 i sicrhau nad oes risg o fethu â chydymffurfio a chael dirwyon sylweddol gan yr ICO pe byddai mynediad diawdurdod at wybodaeth.

132 Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd bod ganddi gofrestr asedau gwybodaeth, ond nid oedd hon wedi'i chynnwys yng nghofnodion unrhyw un o bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2017. Ceir grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Gwybodaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio'r swyddogaethau hyn wrth gefnogi'r Ymddiriedolaeth i foderneiddio a chyflawni ei hamcanion. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder wedi bod ynghylch pa bwyllgor y mae'r grŵp hwn yn adrodd iddo ac yn uwchgyfeirio materion drwyddo. Eleni, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod hyn a thrafododd y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch y Cleifion broffil llywodraethu gwybodaeth ym mis Medi 2017. Ym mis Tachwedd 2017 cadarnhaodd y Pwyllgor y bydd yn gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth i sicrhau y deellir risgiau a materion yn eang ac y cymerir camau i fynd i'r afael â nhw'n briodol a bod yr Ymddiriedolaeth wedi paratoi ar gyfer gofynion deddfwriaethol newydd GDPR.

## Trefniadau rheoli perfformiad – Mae'r trefniadau rheoli perfformiad wedi eu datblygu'n dda ac maent yn parhau i gryfhau, a chan fod perfformiad da o'i gymharu â galwadau coch, mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar alwadau oren

133 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli perfformiad. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

134 Cymeradwyodd y Bwrdd y Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad ym mis Mehefin 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyflwyno Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig (IQPR) i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Bwrdd, mewn cyfarfodydd chwarterol. Mae IQPR yn cynnwys ystod o ddata perfformiad, gan gynnwys y Dangosyddion Ansawdd Ambiwlans (AQI) diweddaraf, ond mae'r ffaith bod y data AQI yn cael eu rhyddhau yn chwarterol a chyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn chwarterol yn golygu bod yr adroddiad yn aml yn cynnwys data o rai misoedd ynghynt. Adolygodd yr Archwilwyr Mewnol brosesau rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai 2017 a nodwyd bod yr IQPR a'r adroddiad cwmpasu yn eang ond nad yw'r neges bob amser yn glir.

135 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau yn ddiweddar i wella fformat a chyflwyniad ei IQPR, a bellach mae'n cynnwys dangosfwrdd, mwy o graffiau a gwybodaeth weledol a chamau gwella manwl. Ceir rhagor o gynlluniau i symleiddio'r IQPR a gwella ei eglurder yn dilyn adolygiad cyfredol Prif

Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans o AQI. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn y broses o ddatblygu dangosfwrdd electronig byw, o'r enw Clicksense, a fydd yn eu galluogi i ddadansoddi a dehongli data yn gyflymach ac mewn modd mwy ystyrlon. Y bwriad yw y bydd hwn ar waith erbyn mis Awst 2018 a bydd yn cyfrannu gwybodaeth i'r IQPR ac adolygiad perfformiad misol Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans.

136 Mae perfformiad o ran galwadau coch yn parhau i fod yn gryf. Rhagorwyd ar y targed o 65% ym mhob ardal Bwrdd Iechyd yn ystod 2016-17, a 75.4% oedd y perfformiad gwaethaf ar lefel Cymru gyfan. Mae'r perfformiad hwn er gwaethaf cynnydd o 5% yn y galw o'i gymharu a'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r galw cynyddol hwn wedi effeithio ar berfformiad 95 canradd oren, sydd wedi arwain at gynnydd cyfartalog o 23 munud o aros i gleifion yn y categori hwn yn y blynyddoedd diweddar.

137 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynyddu ei bwyslais ar berfformiad oren yn ystod 2017 ac wedi cytuno ar gynllun i wella perfformiad oren drwy nifer o gamau, gan gynnwys:

- aildrefnu'r defnydd o adnoddau yn unol â'r adolygiad galw a chapasiti[3];
- cynyddu cysondeb y defnydd o staff wrth gefn ar rotâu staff;
- cynyddu'r defnydd o ambiwlansiau brys a lleihau'r defnydd o Gerbydau Ymateb Cyflym i wella effeithiolrwydd.

138 Mae mynd i'r afael â'r galw cynyddol ar wasanaethau ambiwlans a gwasanaethau ehangach y GIG hefyd yn faes allweddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio arno. Er i'r oedi o ran trosglwyddo mewn adrannau brys barhau i ostwng yn 2017, nid ydynt wedi gostwng ar gyfradd sy'n gwrthbwyso'r galw cynyddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu gwasanaethau i liniaru a rheoli'r galw, fel y cynnydd yn nifer y clinigwyr sydd ar gael yn ei Chanolfannau Cyswllt Clinigol i roi cyngor clinigol i gleifion dros y ffôn a lleihau nifer yr ambiwlansiau a anfonir a nifer y bobl sy'n cael eu cludo i ysbyty pan fo hynny'n briodol. Ceir hefyd ystod o fentrau a arweinir gan yr Ymddiriedolaeth ar ei phen ei hun neu ar y cyd ag eraill sydd â'r nod o leihau'r galw fel y gwasanaeth 111/OOH newydd, ymyriadau ar gyfer galwyr aml a parafeddygaeth gymunedol.

# Dulliau eraill sy'n ei gwneud yn bosibl i ddefnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei gweledigaeth ar gyfer ei hystad, ymgynghori â rhanddeiliaid a chynllunio'r gweithlu, ond mae rheoli asedau ac absenoldeb salwch yn parhau i fod yn heriau

139 Yn ystod ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2017 adolygwyd nifer o ddulliau sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau, gan gynnwys rheoli gweithlu, ystadau a rheoli asedau, TGCh a defnyddio

[3] Yn 2016, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad galw a chapasiti. Archwiliodd yr adolygiad y defnydd o adnoddau'r sefydliad (gweithlu, ystadau ac asedau), tueddiadau poblogaeth a galw ar wasanaethau, a chaiff ei ddefnyddio gan yr Ymddiriedolaeth i lywio a chryfhau ei gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

technoleg ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned. Rydym wedi asesu cynnydd o'i gymharu ag argymhellion cysylltiedig a wnaed yn 2016. Nodir ein canfyddiadau isod.

### Rheoli gweithlu – Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei threfniadau cynllunio gweithlu, ac mae wedi bod yn llwyddiannus wrth wella agweddau ar reoli gweithlu, ond mae lleihau absenoldeb salwch yn parhau i fod yn her

140 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau i reoli'r gweithlu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

141 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei threfniadau o ran cynllunio gweithlu. Mae gan yr Ymddiriedolaeth fodel partner busnes ar waith sy'n golygu bod gan bob adran bartner yn yr Adran Adnoddau Dynol i gynnig cymorth â materion rheoli gweithlu, fel absenoldebau salwch. Yn ystod 2017, ehangodd yr Ymddiriedolaeth swyddogaeth ei phartneriaid busnes adnoddau dynol i gynnwys cymorth ar gyfer cynllunio gweithlu. Yn sgil hyn, mae cynlluniau gweithlu Canolfannau Cyswllt Clinigol a gwasanaeth 111 yr Ymddiriedolaeth bellach yn cynnwys senarios ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor. Gwneir y gwaith cynllunio gweithlu ar gyfer parafeddygon yn ganolog ar hyn o bryd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu gwaith cynllunio gweithlu ar lefel leol, ei brofi yn ganolog a'i gasglu at ei gilydd mewn cynllun gweithlu canolog ar gyfer parafeddygon.

142 Yn yr un modd a gwasanaethau ambiwlans eraill ledled y DU, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno lefel tâl Band 6 ar gyfer parafeddygon yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio dull gwahanol i ddull gwasanaethau ambiwlans eraill o ran pontio ei weithlu cyfredol. Mae'r holl barafeddygon presennol wedi cael dewis i gytuno i'r newid, a bydd gan y rhai sy'n dewis gwneud hynny ddwy flynedd i ddangos eu bod yn gallu cyflawni'r cymwyseddau uwch a ddisgwylir gan barafeddyg band 6. Disgwylir i'r cam hwn fod o fudd i'r Ymddiriedolaeth, ei staff a'i chleifion gan y bydd y parafeddygon yn datblygu sgiliau uwch. Bydd y rhai hynny na fydd yn dewis pontio i'r trefniadau band 6 yn dod yn Dechnegwyr Meddygol Brys (EMT) yn hytrach. Mae'r cyllid ar gyfer y newid hwn wedi ei gytuno drwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC). Ar adeg y gwaith maes, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu sawl model senario ac roedd yn defnyddio'r modelau hyn i ragweld effaith lefelau amrywiol o bontio ar y sefydliad.

143 Yn ystod haf 2017, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i recriwtio i nifer o swyddi parafeddyg gwag. Ym mis Gorffennaf 2017, dim ond 2% o'r swyddi parafeddygon a oedd yn wag. Enillodd yr Ymddiriedolaeth Wobr yr Healthcare People Management Association am Dîm Recriwtio'r Flwyddyn i gydnabod llwyddiant ei digwyddiad recriwtio 'Big Bang'. Yn sgil y digwyddiad hwn, recriwtiwyd mwyn na 30 o barafeddygon ac mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn ceisio gor-recriwtio er mwyn cryfhau capasiti wrth gefn y sefydliad. Caiff hyn ei ariannu gan leihad yn y defnydd o oramser staff.

144 Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wneud, er enghraifft, roedd cyfradd swyddi gwag o 28% ar lefel uwch-ymarferwyr parafeddygaeth ac mae trosiant ymhlith parafeddygon yn parhau i fod rhwng 7% a 8%. Yn ogystal â hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod mai un o'i heriau allweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf fydd cynyddu proffil cynrychioliadol y sefydliad o ran cydraddoldeb. Dim ond 1% o'r gweithlu sydd yn Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ar hyn o bryd.

145 Nid yw cyfraddau salwch yn ystod 2016-17 wedi gostwng yn unol a'r targedau a gynlluniwyd. Ym mis Awst 2017, roedd y gyfradd salwch yn 7% o'i gymharu â tharged o 5.9%. Mae hwn yn gynnydd o gyfradd o 6.5% ym mis Chwefror 2017. Mae'r Adran Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi bod yn

gweithio yn ystod y flwyddyn i ddadansoddi tueddiadau salwch, gan nodi bod cyfradd absenoldeb salwch hirdymor yr Ymddiriedolaeth yn uwch na chyfradd absenoldebau salwch tymor byr. Mewn ymateb i hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Grŵp Prosiect Absenoldeb Salwch, sydd wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu ar Salwch ar gyfer 2017-18. Mae'r Cynllun Absenoldeb Salwch yn cynnwys camau fel adolygu patrymau salwch, datblygu cynlluniau ar gyfer staff sy'n absennol am gyfnod hirdymor ac adnewyddu archwiliadau salwch.

146 Comisiynodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad allanol o Iechyd Galwedigaethol, a adroddodd wrth yr Uwch Dîm Rheoli ym mis Awst 2017. Roedd yr adolygiad yn amlygu cyfyngiadau ar gapasiti ac mae'r Adran Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn bwriadu mynd a'r afael â hyn yn y misoedd sydd i ddod. O ystyried yr effaith barhaus y mae absenoldebau salwch yn ei chael ar gapasiti gweithredol o ddydd i ddydd, yn ogystal â pherfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'r gwaith hwn yn faes allweddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio arno.

147 Roedd cyfradd cynnal arfarniad personol ac adolygiad datblygu (PADR) ar draws yr Ymddiriedolaeth yn 70% ym mis Medi 2017, o'i chymharu â tharged o 85%. Mae hwn yn welliant sylweddol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth o'i gymharu â'i pherfformiad y llynedd, ond mae'n parhau i wynebu heriau wrth sicrhau bod staff rheng flaen yn cwblhau PADR. Mae rheolwyr yr Ymddiriedolaeth hefyd yn cydnabod bod ansawdd PADR yn parhau i fod yn anghyson, er eu bod yn gwella.

148 Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yr Ymddiriedolaeth yn parhau i wella hefyd, sef 79% ym mis Medi 2017, ac mae llawer o'r staff yn dilyn Rhaglen Arweinydd Tîm yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu heriau sylweddol o ran annog staff i ddefnyddio amser hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus erbyn diwedd y flwyddyn, a dim ond 26% o'i gweithlu o barafeddygon/technegwyr meddygol brys a gwblhaodd y Datblygiad Proffesiynol parhaus y cytunwyd arno erbyn diwedd mis Medi 2017.

149 Yn 2016, gwnaethom yr argymhelliad canlynol ynglŷn â rheoli'r gweithlu. Mae Arddangosyn 10 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

## Arddangosyn 10: cynnydd ar argymhelliad rheoli'r gweithlu 2016

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhelliad 2016 ynglŷn â rheoli'r gweithlu.

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| A8 2016 Lleihau cost salwch a datblygu sgiliau a chapasiti'r gweithlu, cymryd rhagor o gamau i leihau lefelau salwch a chynyddu cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau personol ac adolygiadau datblygiad (PADR). | Mewn sefyllfa dda i gyflawni hwn, ond heb ei gwblhau hyd yn hyn.<br>• Nid yw cyfraddau salwch yn ystod 2016-17 wedi gostwng yn unol â'r targedau a gynlluniwyd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar 'gynllun gweithredu ar salwch' ar gyfer mynd i'r afael â pherfformiad yn 2017-18.<br>• Mae PADR wedi gwella, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ansawdd PADR yn anghyson. |

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| | • Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol wedi cynyddu ac roedd yn 79% ym mis Medi 2017. |

Trefniadau rheoli ystad ac asedau – Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynegi ei gweledigaeth ar gyfer ei hystad drwy Raglen Gweithredu Strategol sydd wedi ei chymeradwyo ac mae'n ceisio gwella cywirdeb a chysondeb ei gwaith rheoli asedau drwy gaffael System Rheoli Asedau

150 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi gwaith rheoli ystad ac asedau. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

151 Cymeradwyodd y Bwrdd y Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer yr Ystad (SOP) ym mis Mawrth 2017. Mae'r SOP yn nodi manylion yr weledigaeth ar gyfer datblygu ystad yr Ymddiriedolaeth rhwng 2017 a 27, ac fe'i datblygwyd gan staff o wahanol rannau o'r sefydliad gan gynnwys safleoedd gweithredol, Canolfannau Cyswllt Clinigol a safleoedd gweinyddol. Cyflwynwyd y SOP i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar ac, os caiff ei chymeradwyo, bydd yn llywio defnydd yr Ymddiriedolaeth o gynlluniau cyfalaf a busnes disgresiynol dros y ddeng mlynedd nesaf. Er enghraifft, mae'r SOP yn amlinellu dewisiadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw.

152 Cyflwynodd yr Archwilwyr Mewnol adroddiad ar yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2017. Roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd rhesymol. Nodwyd sylwadau cadarnhaol yn yr adroddiad ynghylch trefniadau nodi a monitro ac adrodd ar yr ôl-groniad yn y gwaith cynnal a chadw ar ystad yr Ymddiriedolaeth. Roedd yn nodi hefyd bod yr Ymddiriedolaeth wedi lleihau ei hôl-groniad cynnal a chadw wedi ei asesu ar gyfer risg o £15.6 miliwn yn 2015-16 i £9.8 miliwn yn 2016-17.

153 Yn ystod asesiad strwythuredig 2016, gwnaethom nodi sylwadau ar yr angen i'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o reoli asedau a mynd i'r afael â gwendidau a nodwyd ym Memorandwm Cyfrifon Terfynol Swyddfa Archwilio Cymru 2015-16. Eleni, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dangos rhywfaint o gynnydd o'i gymharu â'r gwelliannau gofynnol ar gyfer rheoli asedau. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys:

- cynnal archwiliadau bodolaeth ffisegol o asedau TG a diweddaru'r gofrestr asedau yn unol â hynny;
- adolygu asedau TG ar y gofrestr asedau a thynnu cyfran fawr o asedau darfodedig / nad ydynt yn bodoli oddi arni;
- adolygu'r fethodoleg i gefnogi cyfalafu costau staff (y cyfeirir atynt yn Arddangosyn 6)

154 Fodd bynnag, erys nifer o faterion a nodwyd yn 2015-16 heb eu datrys a gwnaethom nodi rhagor o faterion yng ngwaith eleni, fel yr adroddwyd ym Memorandwm Cyfrifon Terfynol 2016-17. Roedd sawl mater yn ymwneud â'r gofrestr asedau, fel camddosbarthu wrth gategorïo asedau. Er ein bod yn cydnabod bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwaith yn ystod 2016-17 i gadarnhau bod ei hasedau TG yn bodoli, bydd angen cwblhau'r ymarfer hwn yn llwyr a'i ymestyn wrth fwrw ymlaen er mwyn cynnwys gwirio asedau ychwanegol yn rheolaidd fel gwelyau cludo, diffibriliwyr ac adeiladau. Mae'r

Ymddiriedolaeth yn cydnabod y pwyntiau hyn ac yn caffael System Rheoli Asedau ar hyn o bryd er mwyn gwella ansawdd yr wybodaeth a gofnodir, sicrhau bod asedau'n cael eu dosbarthu'n gywir a thynnu sylw at asedau y mae angen eu dilysu. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi ei bod yn bwriadu cwblhau'r camau gweithredu mewn ymateb i'n argymhellion erbyn mis Mehefin 2018 ac wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r cynnydd i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.

155 Yn 2016, gwnaethom yr argymhelliad canlynol ynglŷn â'r ystad. Mae Arddangosyn 11 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

### Arddangosyn 11: cynnydd ar argymhelliad rheoli ystad ac asedau 2016

Mae'r tabl yn disgrifo'r cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhelliad 2016 ynghylch rheoli ystad ac asedau.

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A10 2016 Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud y defnydd gorau o'i hystad, cwblhau strategaeth ystadau gyfredol erbyn y dyddiad a fwriadwyd, sef 31 Mawrth 2017. | Wedi ei gwblhau.<br>Cymeradwywyd y Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer yr Ystadau gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2017 ac mae'n disgwyl am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru |
| A2 2016<br>Cryfhau'r dull o reoli asedau, ymdrin â'r gwelliannau gofynnol a nodwyd yn adroddiad cyfrifon a Memorandwm Archwilio Cyfrifon Terfynol Swyddfa Archwilio Cymru. | Mewn sefyllfa dda i gyflawni hwn, ond heb ei gwblhau hyd yn hyn.<br>• Gall yr Ymddiriedolaeth ddangos rhywfaint o gynnydd o'i gymharu â'r gwelliannau gofynnol ar gyfer y dull o reoli asedau, fel y disgrifir uchod.<br>• Fodd bynnag, erys nifer o faterion a nodwyd yn 2015-16 heb eu datrys a gwnaethom nodi rhagor o faterion yng ngwaith eleni, fel yr adroddwyd ym Memorandwm Cyfrifon Terfynol 2016-17. Maent yn ymwneud â'r meysydd canlynol:<br>– Ansawdd gwybodaeth y gofrestr asedau<br>– Dosbarthu asedau<br>– Dilysu asedau yn ffisegol<br>– Cyfalafu costau<br>– Pennu oes asedau |

### TGCh a defnyddio technoleg – Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud ymgais wirioneddol at foderneiddio drwy wella ei systemau technolegol ond mae'r gefnogaeth yn gyfyngedig o ganlyniad i bwysau ar adnoddau

156 Mae swyddogaethau TGCh a gwybodeg yr Ymddiriedolaeth yn rhan allweddol o'i bwrdd moderneiddio, ac maent yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses foderneiddio. Roedd agenda foderneiddio'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18 yn cynnwys gweithredu system CAD (Computer Aided Despatch), ac roedd y gwaith hwn ar y gweill adeg y gwaith maes. Y CAD yw'r system y mae

staff Canolfan Gyswllt Clinigol yr Ymddiriedolaeth yn ei defnyddio i asesu a blaenoriaethu galwadau 999, yn ogystal ag adnoddau anfon cymorth, ac mae'n hanfodol ar gyfer rheoli'r Gwasanaeth Meddygol Brys. Dylai'r system CAD newydd sydd wedi'i chaffael gan yr Ymddiriedolaeth wella ansawdd ac amseroldeb yr wybodaeth yn y system, gan fod yr Ymddiriedolaeth wedi nodi nad oedd ei CAD flaenorol yn addas at ei diben. Bu hwn yn ddarn o waith sylweddol ar gyfer y swyddogaethau TGCh a Gwybodeg yn ystod 2017 ac mae'n rhan bwysig o foderneiddio tair Canolfan Cyswllt Clinigol yr Ymddiriedolaeth.

157 Ar hyn o bryd, dim ond 27 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio i swyddogaeth TGCh yr Ymddiriedolaeth, a dim ond un Rheolwr Prosiect TGCh sy'n trefnu holl brosiectau TGCh yr Ymddiriedolaeth. Bydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r gofyniad parhaus i wneud arbedion yn ei gwneud yn anodd i swyddogaeth TGCh yr Ymddiriedolaeth barhau i gefnogi'r broses foderneiddio.

Trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth – Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid ac mae'n defnyddio ymgysylltiad cyhoeddus i lywio ei strategaeth hirdymor.

158 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau sydd ar waith i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a gweithio gyda phartneriaid. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

159 Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu a gweithredu Fframwaith Ymgysylltu a Chyfathrebu ynghyd â Chynllun Cyflenwi cysylltiedig ar gyfer 2017-18. Y bwriad yw y bydd y Fframwaith Ymgysylltu a Chyfathrebu yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i achub ar gyfleoedd i sefydlu ac atgyfnerthu ei pherthynas â phartneriaid allweddol, a chefnogi'r Ymddiriedolaeth i wireddu ei gweledigaeth mewn cydweithrediad â'r partneriaid hynny. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Chyfathrebu yn nodi nifer o egwyddorion a ddylai lywio'r Ymddiriedolaeth wrth iddi ymgysylltu â'i phartneriaid er mwyn mynd ar drywydd amcanion penodol, er enghraifft, lleihau'r galw am wasanaethau 999.

160 Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Chyfathrebu hefyd yn trafod y cyfleoedd sy'n deillio o ddeddfwriaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru, er enghraifft Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) a grëwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gorff a ragnodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae wedi mynegi ei bwriad i achub ar gyfleoedd i fod yn rhan o drafodaethau strategol ar lefel y PSB. Nid yw'r Ymddiriedolaeth eto wedi sefydlu sut y gall ymgysylltu'n effeithiol drwy'r dulliau hyn o ystyried nifer y PSBs a RPBs, ac o ystyried y ffaith nad oes amser mawr ers eu sefydlu.

161 Mae gwaith arall sy'n dangos ymrwymiad parhaus yr Ymddiriedolaeth i ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- datblygiad parhaus nifer o gynlluniau a rennir â'i phartneriaid yn y Bwrdd Iechyd, megis prosiectau cwympo a ariennir drwy'r Gronfa Gofal Integredig;
- enghreifftiau o weithio'n gadarnhaol gyda Heddlu De Cymru gan arwain at gynllun peilot lle cafodd staff clinigol eu rhoi mewn ystafelloedd rheoli'r heddlu er mwyn lleihau galw. Mae'r cynllun hwnnw bellach wedi dod yn drefniant parhaol;

- mae cynnal cyfarfodydd y Bwrdd mewn gwahanol leoliadau daearyddol yn unol ag amserlen benodol, ynghyd â chynnal sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ôl bob cyfarfod, yn parhau i hyrwyddo ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid;
- cyflwyno cynrychiolydd o'r Brifysgol i gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

162 Yn ogystal, bu tîm Profiad Cleifion a Chynnwys Cymunedau (PECI) yr Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu â nifer o grwpiau cleifion penodol yn ystod 2016-17. Mae gwaith ymgysylltu â phobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu ac, yn fwy diweddar, plant a phobl ifanc, wedi dysgu beth sydd fwyaf pwysig i'r grwpiau hyn pan fyddant yn derbyn gwasanaethau ambiwlans brys. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi arwain at ddatblygu 'addewidion' i'r grwpiau penodol hyn, a fydd yn cael eu hymgorffori i strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

# Atodiad 1

## Ymateb Rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i argymhellion asesiad strwythuredig 2017

### Arddangosyn 12: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi argymhellion 2017 ac ymateb y rheolwyr.

| Argymhelliad | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 **Craffu ar gyflawni arbedion ariannol.** Er bod craffu da ar gyflawni cynlluniau arbed arian, dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau presennol i gynnwys:<br>a. rhagor o sylw ar y rhesymau sydd y tu ôl i dangyflawniad cynlluniau arbed arian penodol gan y Grŵp Cyllid Gweithredol;<br>b. gwella presenoldeb y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn y Grŵp Cyllid Gweithredol; a<br>c. chryfhau prosesau craffu'r Pwyllgor Cyllid ac | Rhagor o berchnogaeth o gynlluniau arbed arian yr Ymddiriedolaeth a mwy o ddealltwriaeth o'r rhesymau sydd y tu ôl i'r cynlluniau arbed arian sy'n tanberfformio. | Ydy | Do | Mae'n ofynnol yn ôl ein cynllun ariannol i ni gyflawni targedau arbed arian uchelgeisiol. Byddwn wedi gwneud arbedion, erbyn diwedd y cyfnod IMTP 3 blynedd cychwynnol a gymeradwywyd, neu wedi osgoi costau o dros £15 miliwn – rhyw 10% o'r gwariant yn ôl disgresiwn a oedd gan y sefydliad ar ddechrau'r cyfnod hwn. Mae gennym ni nifer o gynlluniau i gyflawni hyn, ac rydym ni wedi gosod targedau heriol iawn. Cydnabyddir felly y gall rhai cynlluniau fod ag ychydig o oedi neu hyd yn oed tanberfformio. Mae rhai eraill hefyd lle'r ydym wedi gallu cyflawni mwy na'r hyn a gynlluniwyd i ddechrau. Rydym eisoes yn monitro'r amrywiadau hyn yn agos a byddwn yn cryfhau ein hadroddiadau manwl ynghylch y meysydd tangyflawni hynny i ddeall yn well y rhesymau y tu ôl i hyn a'r camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn (yn y tymor byr ac yn yr hirdymor gan y gallai rhai arbedion dangyflawni oherwydd amseroedd cyflwyno hirach na'r disgwyl). Caiff hyn ei adlewyrchu mewn adroddiadau diweddaru i'r Grŵp Cyllid Gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (ac i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn y pen draw) i gefnogi eu gwaith craffu ar sut y cyflawnir arbedion. | 31 Mawrth 2019 | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |

| Argymhelliad | | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau ar gynlluniau arbed arian sy'n tanberfformio. | | | | Rhoddir pwyslais o'r newydd ar bresenoldeb yn y Grŵp Cyllid Gweithredol, gan gynnwys yn ystod y cyfnod interim sydd i ddod mewn cysylltiad â'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyllid, gan gynnwys enwebu dirprwy penodol yn ffurfiol i gynrychioli pob un o'r aelodau sy'n Gyfarwyddwyr Gweithredol pan fo angen. | | |
| A2 | **Nodi risgiau i berfformiad ac ansawdd mewn cynlluniau arbed arian.** Ystyrir risgiau i berfformiad ac ansawdd y gwasanaeth wrth gynllunio arbedion, ond mae adrodd ar risgiau yn y flwyddyn yn gyfyngedig. Dylai'r Ymddiriedolaeth gymryd camau i sicrhau bod ei Hadroddiadau Cyflawni Arbedion yn amlygu unrhyw risgiau y gallai cynlluniau arbed arian eu hachosi i berfformiad ac ansawdd y gwasanaeth. | Mae gan yr Ymddiriedolaeth fwy o allu i nodi ac ymateb i unrhyw risgiau y gallai cynlluniau arbed arian eu hachosi i berfformiad ac ansawdd y gwasanaeth. | Ydy | Do | Er bod ystyried risg a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau, perfformiad ac ansawdd yn rhan o unrhyw drafodaeth a gynhelir ynglŷn â chyflawni arbedion, byddwn yn diweddaru ein hadroddiadau amlygu cyflawni arbedion i gynnwys adran benodol ar risgiau i ddarpariaeth gwasanaethau ac ansawdd ar gyfer 2018/19. | 1 Ebrill 2018 | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |
| A3 | **Cryfhau rheolaethau rheoli asedau.** Mae angen i'r Ymddiriedolaeth weithredu gwelliannau pellach ym maes rheolaethau rheoli asedau a | Rheolaethau rheoli asedau cryfach. | Ydy | Do | Ar ôl nodi bod angen adolygiad manwl ar y system gyfredol o reoli asedau, dechreuwyd ar hyn cyn gynted ag y daeth yr archwiliad diwedd blwyddyn ar gyfer 2016/17 i ben. Daethpwyd i'r casgliad y dylid rheoli asedau sefydlog yr Ymddiriedolaeth drwy system benodedig. | 31 Mawrth 2018 | Cyfrifydd Ariannol |

| Argymhelliad | | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | nodwyd yn adroddiad cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ac ym Memorandwm Cyfrifon Terfynol 2016-17. | | | | Yn dilyn proses tendro gystadleuol ar raddfa fach cafodd y system 'RAM' (Rheoli Asedau Real) ei chaffael. Rhoddwyd y system hon ar waith ym mis Hydref 2017 ac mae ymarfer tacluso data wedi bod yn weithredol ers hynny. Cynhaliwyd profion a hyfforddiant cychwynnol ar y system newydd yn ystod mis Ionawr 2018 ac mae cynlluniau i'r system fynd yn fyw ar 1 Ebrill 2018 mewn sefyllfa dda i gael eu cyflawni. Caiff hyn ei ystyried yn gam sylweddol ymlaen ac yn welliant gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd wedi cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiad hwn wrth iddo ddatblygu.<br>Yn ogystal â hyn, sefydlwyd grŵp ffocws gorchwyl a gorffen i gefnogi prosesau gwirio asedau yn enwedig asedau TGCh a diffibrilwyr. Mae'r gwaith yn y maes hwn bron wedi ei gwblhau a chynhelir cyfarfod terfynol y grŵp hwn yn gynnar ym mis Chwefror 2018.<br>Ar ôl i'r mater hwn gael ei gyfeirio gan Bwyllgor Archwilio yr Ymddiriedolaeth, mae diweddariad llawn ar y maes hwn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar 25 Ionawr 2018 a darperir diweddariadau pellach ar hyn yn ystod cyfnod diwedd blwyddyn 2017-18. | | |
| A4 | **Cydymffurfio â Chylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033.**<br>Canfûm yn 2016 na ellir cael gafael ar rai eitemau allweddol ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn unol â gofynion sydd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033 a gwelsom sefyllfa debyg yn 2017. Dylai'r | Dogfennau allweddol ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn hygyrch i'r cyhoedd. | Ydy | Do | Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Bwriad yr Ymddiriedolaeth, ar ôl ei chwblhau, yw y bydd y wefan yn haws ei defnyddio a'i llywio, gan wneud dogfennau allweddol, fel y rhai a fanylir yn WHC (2016)033, yn haws eu nodi a mynd atynt. Bydd y gwaith hefyd yn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n llawn â WHC(2016)033 ac yn parhau i wneud hynny. | 31 Mawrth 2019 | Cyfarwyddwr Partneriaeth ac Ymgysylltu |

| Argymhelliad | | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ymddiriedolaeth gymryd camau i wneud yn siŵr ei bod yn cydymffurfio â gofynion WHC 033. | | | | | | |
| A5 | **Cryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.** Mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys ystod o wybodaeth, ond gellid ei chryfhau ymhellach. Dylai'r Bwrdd:<br>• ddarparu rhagor o fanylion wrth ddisgrifio'r bygythiadau i gyflawni'r amcanion strategol a'u canlyniadau;<br>• nodi a datgan yn glir y rheolaethau penodol a'r sicrwydd ar gyfer y Fframwaith, er enghraifft, manylu ar ba archwiliadau clinigol fydd yn rhoi sicrwydd, yn hytrach | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cadarn sydd â pherchnogaeth a threfniadau monitro clir | Ydy | Do | Cyflwynwyd dogfen Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) yn ystod 2017-18 ar ôl cynnal nifer o drafodaethau gydag aelodau'r Bwrdd ar y math o ddogfen, a'i harddull, y byddent yn dymuno ei chael a'i defnyddio. Cyflwynwyd hon gyda dealltwriaeth a chytundeb lawn fod y ddogfen yn fan cychwyn ac y byddai'r BAF yn parhau i gael ei ddatblygu wrth iddo ymwreiddio yn y fframwaith llywodraethu. Cynllunnir gwaith datblygu sylweddol ychwanegol ar gyfer 2018-19 a bydd hyn yn gyfle i ystyried arsylwadau Swyddfa Archwilio Cymru. | 30 Mehefin 2018 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | na phennu sicrwydd i 'archwiliad clinigol' yn yr ystyr gyffredinol; a<br>• phennu goruchwyliaeth pob risg a nodwyd i amcanion corfforaethol a phennu'r rheolaethau cysylltiedig i bwyllgor craffu penodedig. | | | | | | |
| A6 | **Cryfhau system tracio argymhellion archwilio**. Gwella system tracio argymhellion archwilio ymhellach drwy gofnodi canlyniadau camau gweithredu penodol a sut y maent yn cysylltu ag argymhelliad, er enghraifft, pan fo'r argymhelliad yn gofyn am adolygiad o faes arbennig neu swyddogaeth y sefydliad. | System tracio argymhellion archwilio sy'n fwy tryloyw ac yn darparu mwy o sicrwydd i Gyfarwyddwyr Anweithredol. | Ydy | Do | Adolygwyd yn ddiweddar y systemau a'r prosesau sy'n cefnogi tracio archwiliadau, yn ogystal â sut y caiff yr wybodaeth ei chyflwyno i'r Pwyllgor archwilio, ac maent wedi eu gwella i ddarparu mwy o sicrwydd. Mae'r system tracio argymhellion archwilio erbyn hyn yn haws ei deall gydag, er enghraifft, gwell dealltwriaeth o faterion megis dyddiadau cwblhau a'r rhesymau y tu ôl i unrhyw adolygiad neu newid yn y dyddiadau hyn. Bydd y Tîm Llywodraethu yn parhau i weithio gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod y system tracio archwiliadau yn parhau i roi'r wybodaeth a'r sicrwydd sydd eu hangen i'r Pwyllgor. | 31 Mawrth 2018 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A7 | **Lleihau absenoldeb oherwydd salwch.** | Cyfraddau salwch wedi eu gostwng sy'n cefnogi | Ydy | Do | Mae gostwng lefelau absenoldeb a gwella presenoldeb yn y gwaith yn flaenoriaeth allweddol i'r Ymddiriedolaeth, fel y nodwyd yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig. Gwnaethom | Mis Mawrth 2018 | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |

| Argymhelliad | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ni wnaeth cyfraddau salwch yr Ymddiriedolaeth ostwng yn ystod y cyfnod 20166-17 yn unol â'r targedau a gynlluniwyd. O ystyried yr effaith barhaus y mae'r absenoldeb oherwydd salwch yn ei chael ar gapasiti gweithredol yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd ac ar ei pherfformiad ariannol, dylai'r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu camau gweithredu i leihau lefelau salwch. | capasiti gweithredol ac arbedion ariannol yr Ymddiriedolaeth | | | osod targed gostwng o 1% yn 2017-18 gyda 0.5% arall ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Rydym yn adolygu ein Cynlluniau Gweithredu ar Salwch bob blwyddyn. Mae ein cynlluniau a'n targedau yn dal i fod yn uchelgeisiol, a byddwn yn symud y targed 1% ymlaen i gynlluniau 2018/19, gan barhau i bwysleisio ar wella amodau llesiant a phresenoldeb yn eu cyfanrwydd, yn hytrach na chanolbwyntio ar y broses rheoli absenoldeb yn unig. Amlygodd y ffaith nad oedd unrhyw welliant sylweddol ar y mater hwn yn 2017-18 fod angen buddsoddi mewn gwasanaethau, ataliol ac ymatebol, yn ymwneud â phrif resymau salwch.<br><br>Ym mis Rhagfyr 2017 cawsom y wobr Safon Iechyd Corfforaethol Aur am ein hymrwymiad i wella iechyd a llesiant ein staff. Rydym hefyd yn bwriadu fwrw ymlaen â'r camau gweithredu canlynol:<br>• adolygiad llawn a rheolaidd o achosion Salwch Hirdymor (mae 70-80% o'n cyfraddau salwch yn salwch hirdymor);<br>• edrych ar achos busnes ar gyfer gwasanaethau ffisiotherapi, gan gynnwys gwasanaethau ataliol;<br>• ystyried llwybr carlam ar gyfer achosion iechyd meddwl;<br>• hyrwyddo Cytundeb Lefel Gwasanaeth am Iechyd Galwedigaethol i sicrhau metrigau perfformiad (amseroedd apwyntiadau; cyflwyno adroddiadau etc.);<br>• adolygu'r broses archwilio i gynnwys mwy o fesurau rheoli Cytundeb Lefel Gwasanaeth (archwiliad a arweinir gan STS yn bennaf ar hyn o bryd);<br>• datblygu proses gam wrth gam bosibl i gadw pobl yn y gweithle;<br>• MIND - hyfforddiant i reolwyr ar sut i drafod materion anodd o ran iechyd meddwl gydag aelodau staff; | | |

| Argymhelliad | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • edrych ar gyfleoedd i gyflwyno cymorth seicoleg galwedigaethol ar lefel uwch yn yr Ymddiriedolaeth, ac ar y buddion/cyfleodd a ddaw<br>• blaenoriaethu amser ar gyfer y tîm Adnoddau Dynol ac ymyriadau (e.e. achosion, presenoldeb mewn cyfarfodydd).<br><br>Rydym hefyd yn bwriadu gweithio'n agos gyda phartneriaid academaidd i ddilyn effaith ein hymyriadau salwch er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar feysydd y gallwn gynnig tystiolaeth eu bod yn effeithio ar ein cyfraddau salwch. Cynhaliwyd trafodaethau cwmpasu cychwynnol â Phrifysgol Abertawe ynglŷn â hynny, i'w gweithredu yn ystod 2018-19. | | |
| A8 **Polisïau Llywodraethu Gwybodaeth.** Dylai'r Ymddiriedolaeth wella cyflymder diweddaru polisïau a gwneud cynnydd prydlon yn erbyn gofynion ehangach y GDPR i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â GDPR erbyn mis 2018. | Lliniaru'r risg o fethu â chydymffurfio â gofynion GDPR. | Ydy | Do | Cyflwynwyd rhaglen waith i sicrhau bod yr holl bolisïau presennol a newydd yn cael eu hadolygu a/neu eu datblygu yn unol â gofynion GDPR, mae hyn yn rhan o Fframwaith Polisi Ehangach yr Ymddiriedolaeth. Bydd cyfnod pontio ar waith wrth i'r polisïau gael eu gweithredu a'u cyflwyno, mae hyn oherwydd y datblygir canllawiau yn yr Undeb Ewropeaidd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) mewn cysylltiad â rhwymedigaethau rheolwyr data. Cynhelir gwaith i ddarparu canllawiau a chyfathrebiadau priodol i aelodau'r staff ynghylch eu cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r sefydliad pan fo angen ymwybyddiaeth yn ystod y cyfnod pontio.<br><br>O ran cynnydd yn erbyn gofynion ehangach GDPR erbyn mis Mai 2018, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud cynnydd da. Bydd hyn yn cynnwys cadarnhau DPO yr Ymddiriedolaeth. O ran ymwybyddiaeth ehangach mae hyn wedi cynnwys yn ddiweddar diweddariad manwl i aelodau'r Bwrdd mewn | Rhagfyr 2018<br><br>Mis Mai 2018 | Pennaeth Gwybodeg Iechyd a Swyddog Diogelu Data<br><br>Pennaeth Gwybodeg Iechyd a |

| Argymhelliad | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sesiwn briffio ar Ddatblygu'r Bwrdd yn ddiweddar, ynghyd â drafftio dewis manwl o gwestiynau cyffredin mewn cysylltiad â gweithredu uniongyrchol y GDPR ar 25 Mai 2018, i sicrhau bod pawb yn gwybod ac yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn. Bydd gwaith ar hyn yn parhau hyd y dyddiad hwn (a thu hwnt). | | Swyddog Diogelu Data |
| A9 **Gwella ansawdd a phrydlondeb papurau'r bwrdd a phwyllgorau.** Gwella prydlondeb papurau'r bwrdd a'r pwyllgorau, a gwella ei hansawdd bellach drwy:<br>• roi mwy o bwyslais ar sicrwydd, amlygu unrhyw risgiau y dylai aelodau eu hystyried, neu lefel y sicrwydd bod y risgiau yn cael eu lliniaru: mae'r rhestr wirio adroddiadau yn ddull defnyddiol i gasglu'r wybodaeth hon ond yn aml nid yw wedi'i chynnwys neu nid yw wedi'i llenwi'n iawn; | Papurau'r bwrdd a'r pwyllgorau sy'n amserol ac o ansawdd uchel. | Nac ydy | Do | Diben y rhestr wirio adroddiadau sy'n cyd-fynd â phapurau'r Bwrdd yw casglu ac amlygu gwybodaeth am risgiau, themâu ansawdd ac amcanion corfforaethol. Er hynny, derbynnir nad yw'r manylion hynny bob amser wedi eu llenwi gan y rhai hynny sy'n cyflwyno papurau'r Bwrdd. Defnyddiwyd fformat presennol y rhestr wirio ers peth amser ac oherwydd hyn caiff ei hadolygu yn 2018-19 i sicrhau ei bod yn darparu'r wybodaeth briodol i'r Bwrdd.<br><br>Adolygwyd yn ddiweddar arddull a chyflwyniad cofnodion a phwyntiau gweithredu y Bwrdd a'r Pwyllgorau ar ôl trafodaethau gyda'r Cadeiryddion unigol. Er ei bod yn bosibl i'r arddull amrywio ychydig o bwyllgor i bwyllgor, maent yn adlewyrchu'r gofynion unigol pob Pwyllgor a'r busnes dan sylw. Mae arddull a chyflwyniad cyfarfodydd y bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu trafod a'u hadolygu yn rheolaidd gan weithgor y Cadeiryddion a bydd y tîm Llywodraethu yn parhau i weithio'n agos gyda'r Cadeiryddion i sicrhau y caiff cofnodion a phwyntiau gweithredu eu casglu'n briodol ac yn gywir.<br><br>Bydd yr holl gofnodion EASC yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol. | 30 Mehefin 2018<br><br>31 Mawrth 2018<br><br>31 Mawrth 2018 | Ysgrifennydd y Bwrdd<br><br>Ysgrifennydd y Bwrdd<br><br>Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • bod yn fwy cyson wrth gasglu pwyntiau pwysig y trafodaethau mewn cofnodion : ar hyn o bryd ceir camau gweithredu yn unig mewn rhai cofnodion, nid yr argymhellion, ac nid oes tystiolaeth o graffu neu drafod yn rheolaidd; a<br>• sicrhau bod y Bwrdd yn cael cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) yn rheolaidd. | | | | | | |

# Atodiad 2

Arddangosyn 13: crynodeb o gynlluniau arbed arian 2016-17 yr Ymddiriedolaeth a gyflawnwyd

Mae'r tabl yn disgrifio'r perfformiad o'i gymharu â'r cynlluniau arbed arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

| Cynllun arbed arian | Rheolaidd / Afreolaidd | Targed Blynyddol £000 | Cyflawnwyd £000 | Gwahaniaeth £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau a dangyflawnodd o gymharu â'r targed blynyddol | | | | |
| Adolygu'r fflyd | Rheolaidd | 33 | 2 | -31 |
| NEPTS | Rheolaidd | 140 | 77 | -33 |
| Adolygu Meddyginiaethau, Nwyau Meddygol a Chytundebau Lefel Gwasanaeth | Rheolaidd | 9 | 7 | -2 |
| Gostwng salwch gan 2% - Pennaeth CCC | Rheolaidd | 26 | 4 | -22 |
| Gostwng salwch gan 2% - Pennaeth Gweithredoedd | Rheolaidd | 173 | 113 | -60 |
| Adolygu a gostwng costau teithio | Rheolaidd | 20 | 12 | -8 |
| Rheolaeth Llwynhelyg – Aelodau staff nas ariennir | Rheolaidd | 96 | 0 | -96 |
| Gostwng salwch ymhellach | Rheolaidd | 375 | 109 | -266 |
| Alinio DPP | Rheolaidd | 100 | 55 | -45 |
| Effeithlonrwydd o ran tâl amrywiol | Rheolaidd | 500 | 350 | -150 |
| Rheoli Swyddi Gwag | Rheolaidd | 200 | 145 | -55 |
| Costau | Rheolaidd | 50 | 20 | -30 |
| Cynnal a chadw'r Fflyd | Rheolaidd | 600 | 107 | -493 |
| Ymatebwyr ar y cyd SLA | Rheolaidd | 50 | 26 | -24 |
| Defnyddiau Traul a Chaffael | Rheolaidd | 100 | 63 | -37 |
| Cynlluniau lleol | Rheolaidd | 480 | 323 | -157 |
| Tanwydd (ar sail ansefydlogrwydd prisiau) | Afreolaidd | 350 | 319 | -31 |
| | **Is-gyfanswm** | **3,302** | **1,732** | **-1,570** |
| Cynlluniau a gyrhaeddodd y targed blynyddol | | | | |
| Moderneiddio a arweinir gan CCC | Rheolaidd | 300 | 300 | 0 |
| Gweithio'n hwyr / Gweithio dros amser ar ddiwedd sifft | Rheolaidd | 8 | 8 | 0 |
| Cyflenwi am Ddigwyddiad Chwaraeon | Rheolaidd | 11 | 11 | 0 |
| Cerdyn tanwydd newydd ac ati | Rheolaidd | 20 | 20 | 0 |
| Effaith VERS | Rheolaidd | 500 | 500 | 0 |
| | **Is-gyfanswm** | **839** | **839** | **0** |

| Cynlluniau a ragorodd ar y targed blynyddol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymatal chwyddiant a chostau statudol | Rheolaidd | 407 | 1,157 | 750 |
| Lleihau nifer y darparwyr preifat | Rheolaidd | 700 | 1,061 | 361 |
| | **Is-gyfanswm** | **1,107** | **2,218** | **1,111** |
| | **Cyfanswm** | **5,248** | **4,789** | **-459** |

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymraeg